

Rhif: WG26897



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft
a Memorandwm Esboniadol

Gorffennaf 2016

Cynnwys

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	2
2.	Trosolwg o'r Ymatebion	3
3.	Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad	4
4.	Crynodeb o'r Digwyddiadau Ymgysylltu	58
5.	Y Camau Nesaf	60
6.	Rhestr o'r Ymatebwyr	61

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ymgynghorodd Llywodraeth flaenorol Cymru ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft am gyfnod o 12 wythnos, o 24 Tachwedd 2015 i 15 Chwefror 2016.
- 1.2 Roedd y Bil Drafft wedi ei seilio ar y cynigion a nodwyd yn y Papurau Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', a 'Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus' a oedd i gyd yn destun ymgynghoriadau â'r cyhoedd. Mae'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn pennu rhaglen o uno llywodraeth leol a fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau ariannol awdurdodau lleol. Byddent hefyd yn sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 1.3 Yn rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd 32 o ddigwyddiadau ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Eu bwriad oedd hysbysu rhanddeiliaid a rhoi prawf ar gymhwysiad ymarferol y darpariaethau a oedd yn y Bil Drafft.
- 1.4 Cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol waith craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil Drafft. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar 2 Mawrth¹.
- 1.5 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad y Bil Drafft a chrynodeb o'r sylwadau a fynegwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu (yn Adran 4).

¹ [Bil Llywodraeth Leol \(Cymru\) Drafft | Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

2. Trosolwg o'r Ymatebion

2.1 Derbyniwyd cyfanswm o 187 o ymatebion oddi wrth sefydliadau ac unigolion.

2.2 Roedd nifer yr ymatebwyr yn ôl eu math fel a ganlyn:

Math o Ymatebydd	Nifer	%
Aelod o'r Cyhoedd	23	13
Aelod Etholedig	8	3
Awdurdod Lleol	25 ²	13
Cyngor Tref / Cymuned	86	47
Grŵp / Plaid Wleidyddol	4	2
Undebau Llafur	1	0.5
Trydydd Sector	1	0.5
Corff Cynrychioliadol / Cymdeithas neu Gorff Proffesiynol	20	11
Asiantaeth Llywodraeth / Corff Arall o'r Sector Cyhoeddus	15	8
Arall	4	2
Cyfanswm	187	100

2.3 Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Adran 6.

2.4 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau dan y prif Rannau canlynol o'r Bil Drafft:

- Rhan 1 Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir
- Rhan 2 Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
- Rhan 3 Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol
- Rhan 4 Swyddogaethau'r Cynghorau Sir a'u Haelodau
- Rhan 5 Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well
- Rhan 6 Cynghorau Cymuned
- Rhan 7 Materion y Gweithlu
- Rhan 8 Cyffredinol ac Atodlenni

2.5 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn cwestiynau am ddogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil Drafft, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a'r asesiadau effaith penodol.

2.6 Ceir crynodeb o'r ymatebion o dan bob un o'r prif Rannau o'r Bil Drafft a darperir y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Rhan 3.

² Ymatebodd 21 o'r prif awdurdodau lleol. Mae'r ffigurau yn cynnwys ymatebion gan Bwyllograu unigol awdurdodau lleol


3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad

Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir

C.1.1: A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil Drafft?

3.1 Rhoddodd ymatebwyr eu sylwadau am wahanol agweddau ar y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil Drafft, gan roi pwyslais arbennig ar gyflwyno sylwadau am gyfluniad arfaethedig y cynghorau sir newydd. Crynhoir y sylwadau hyn o dan y cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r Rhan hon o'r Bil Drafft.

Ffigur 1 – Nifer yr ymatebwyr a'u sylwadau am y broses arfaethedig o uno awdurdodau lleol presennol.




C.1.2: Beth yw eich barn ar yr opsiynau i gael 2 neu 3 Sir yn y Gogledd fel y nodwyd yn Atodlen 1 o'r Bil Drafft?

3.2 Roedd cytundeb cyffredinol ymysg yr ymatebwyr ei bod yn bwysig nodi trefniant a oedd yn caniatáu ar gyfer cynrychiolaeth deg a democrataidd, ac a oedd hefyd yn mynd i'r afael â'r angen am atebolrwydd effeithlon, er mwyn sefydlu'r dewis ffafriedig ar gyfer cyfluniad y siroedd arfaethedig yn y Gogledd. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y gallai fod yn anodd cynnal atebolrwydd lleol pe cyflwynid awdurdodau mwy.

3.3 Cafwyd cefnogaeth i'r ddau opsiwn a nodwyd yn Atodlen 1 o'r Bil Drafft. O'r rhai hynny a fynegodd ffafriaeth, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cael tair sir yn y Gogledd.

Ffigur 2 – Nifer yr ymatebwyr a'u dewisiadau o ran cyfluniad siroedd yn y Gogledd.



3.4 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r opsiwn o greu dwy sir yn y Gogledd o'r farn y byddai mwy o gysondeb o ran maint y siroedd newydd yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer meincnodi a chymharu perfformiad ac effeithlonrwydd ariannol. Awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud hi'n anos ymateb i bryderon lleol ac y byddai'n achosi safonau is mewn gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.


3.5 Roedd yr ymatebwyr a fynegodd farn ar yr opsiwn o greu tair sir yn awgrymu y byddai'r model tair sir yn adlewyrchu'n well gyfansoddiad demograffeg ac economïau presennol ar draws yr awdurdodau presennol, ac yn caniatáu ar gyfer gwell cynrychiolaeth, gan nodir bod unedau llai yn fwy atebol i drigolion lleol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r opsiwn o gael tair sir yn cyd-fynd â'r strwythurau is-ranbarthol sydd eisoes wedi eu sefydlu ar gyfer yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Iechyd ar draws y Gogledd. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn y Gogledd yn cefnogi'r opsiwn o gael tair sir.

3.6 Meddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: *"nid yw'n eglur a yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio meini prawf cyson ar draws Cymru gyfan ar gyfer penderfynu ar ffiniau y cynghorau newydd arfaethedig. Mae'n aneglur pam y mae'r achos yn y Gogledd yn union gytbwys...."*

3.7 Roedd Un Llais Cymru yn cefnogi'r cynnig o leihau nifer yr awdurdodau lleol. Yn eu barn hwy, ni ddylai fod mwy nag wyth cyngor sir yng Nghymru, ac ar y sail honno, roeddent yn ystyried y byddai dwy sir yn briodol ar gyfer gogledd Cymru.

C.1.3: Beth yw eich barn ar y patrwm arfaethedig ar gyfer ardaloedd Llywodraeth Leol (siroedd) yng Nghymru?

Ffigur 3 – Nifer yr ymatebwyr a sylwadau am y cyfluniad arfaethedig o siroedd



3.8 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig o leihau cyfanswm yr awdurdodau lleol ac yn ffafrio defnyddio cyfluniad a oedd yn arwain at lywodraethu gwell. Roedd cefnogaeth i'r ddau gynnig yn y Bil Drafft (wyth neu naw o siroedd). Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn argymhell bod angen diwygio'r map arfaethedig a/neu y dylai barhau â'r cyfluniad presennol. Ymysg yr awgrymiadau eraill ar gyfer cyflunio'r awdurdodau lleol oedd cynigion am roi modelau tair, pedair, a phum ardal ar waith, yn ogystal â dewisiadau ar gyfer creu ardaloedd a oedd yn cyd-fynd â ffiniau presennol y Byrddau Iechyd.

3.9 O'r ddau gynnig a oedd yn y Bil Drafft, cafwyd mwy o gefnogaeth i'r opsiwn o greu naw awdurdod. Cynigiodd nifer o'r awdurdodau lleol presennol y dylent gadw eu ffiniau presennol yn hytrach na chael eu cynnwys yn y cynigion i ailgyflunio ardaloedd llywodraeth leol. Ystyriodd ymatebwyr eraill y byddai'r cynnig o gyflunio pum awdurdod presennol yn Ne-ddwyrain Cymru yn un awdurdod unigol yn arwain at awdurdod a oedd yn ei chael hi'n anodd bodloni anghenion lleol a chynnal cynrychiolaeth ddemocrataidd deg yn effeithiol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid hefyd ystyried y siroedd arfaethedig hynny a fyddai'n cynnwys ardaloedd mawr ag elfen gefn gwlad sylweddol iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal cynrychiolaeth ac atebolrwydd effeithiol.

3.10 Yn ogystal â'r sylwadau uchod, nododd Cymdeithas Awdurdod Lleol Cymru ei bod wedi cydnabod ers amser maith yr angen i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ond *"nid yw'n eglur o'r cynigion hyn beth yr ystyrir yw'r maint mwyaf priodol ar gyfer uned llywodraeth leol na pham y mae gwahanol atebion ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru."*

3.11 Yn ychwanegol at gyflunio awdurdodau lleol, rhoddodd ymatebwyr sylwadau ar fuddion ariannol cyfluniadau awdurdodau lleol, gan fynegi y gallai fod angen ystyried hynny ymhellach. Awgrymwyd y gallai adolygiad sylfaenol o awdurdodau lleol nad ydynt wedi eu seilio ar ffiniau presennol yr awdurdodau fod o fudd. Ar y llaw arall, argymhellodd ymatebwyr hefyd ddewis arall i'r cynigion o gyflunio'r awdurdodau, gan nodi y dylid canolbwyntio ar weithredu dulliau mwy cydweithredol ar gyfer gwasanaethau rhwng awdurdodau.

Roedd sylwadau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:


- Dylai'r cyfluniad terfynol ddarparu'r gwasanaethau gorau i drigolion Cymru a dylai'r prif awdurdodau newydd gael eu hariannu'n ddigonol i gyflenwi'r holl wasanaethau sydd eu hangen a'r rhai hynny sy'n gwella mwy ar les y preswylwyr.
- Mae ein hunaniaeth yn cyd-fynd â'n sir hanesyddol, sy'n mynd yn ôl o leiaf bedwar can mlynedd. Dylid llywodraethu etholwyr yn lleol ac nid o ryw leoliad pell.
- Dylai poblogaeth awdurdodau cyfunol fod yn fwy cyfartal. Roedd poblogaeth y siroedd arfaethedig yn ne Cymru yn llawer iawn uwch na'r siroedd yn y gogledd, a dylai'r rhain fod yn llawer llai er mwyn cadw cydbwysedd.
- Mewn cyfnod o gydweithredu cynyddol ar draws ystod o wasanaethau, dylai'r prif ganolbwynt fod ar gyflenwi gwasanaethau hanfodol ar lefel leol.

C.1.4: A oes angen i Weinidogion Cymru geisio unrhyw bwerau pellach i gefnogi'r gwaith o integreiddio Bwrdd Iechyd Powys a Chyngor Sir Powys?

3.12 Roedd yr ymatebwyr a roddodd eu barn ar yr integreiddio rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cydnabod ei bod yn bwysig cael partneriaeth waith effeithiol rhwng y ddau sefydliad, er mwyn datblygu gwasanaethau cyfunol yn llwyddiannus ar gyfer pobl Powys.

3.13 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y lefel bresennol o integreiddio yn briodol ar gyfer Powys ac roeddent o'r farn nad oedd angen i Weinidogion chwilio am fwy o bwerau ar gyfer cefnogi integreiddio Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Nid oedd yr ymatebwyr nad oeddent o'r farn bod angen mwy o bwerau ychwaith yn gweld unrhyw werth ychwanegol o gyfuno'r sefydliadau hyn, ac roeddent o'r farn y dylai integreiddio fod yn fater i'r ddau sefydliad roi sylw iddo. Roedd ymatebwyr hefyd yn cwestiynu a oedd y setiau sgiliau ar gyfer Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cydweddu â'i gilydd.

Ffigur 4 – Sylwadau ynghylch a oes angen i Weinidogion Cymru chwilio am fwy o bwerau i gefnogi integreiddio Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



3.15 O'r ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru chwilio am fwy o bwerau, cafwyd awgrymiadau ynglŷn â ble y dylid targedu'r gefnogaeth ar gyfer integreiddio. Argymhellodd Cymdeithas Awdurdod Lleol Cymru y dylid ystyried hyn ym meysydd cynllunio a rheoleiddio corfforaethol, adnoddau dynol, swyddogaethau aelodau etholedig a/neu ar gyfer creu sefydliad buddiannau cymunedol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ran llywodraethu a chyllido er mwyn cael mwy o bwerau. Roedd Cyngor Sir Powys hefyd yn cefnogi'r angen am fwy o bwerau.

3.16 O'r rhai hynny na chyflwynwyd sylw ganddynt yn benodol ar ba un a fyddai angen i Weinidogion Cymru chwilio am fwy o bwerau, awgrymodd yr ymatebwyr y canlynol:

- Ni wnaiff mwy o integreiddio ddim mwy na lleihau costau rhedeg, ac nid gwella'r gwasanaethau. Bydd yn bwysig pwysu a mesur y pwerau presennol hyn cyn chwilio am unrhyw bwerau ychwanegol.
- Mae nifer o ddulliau ac ysgogiadau eisoes yn bodoli, megis Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus a chyllidebau cyfun dan Gytundeb adran 33³ y gall Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eu defnyddio i hwyluso'r broses integreiddio. Bydd yn bwysig pwysu a mesur y pwerau presennol hyn cyn chwilio am unrhyw bwerau ychwanegol.


³ Cyf: Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

- Bydd integreiddio pellach yn cael ei ysgogi gan bwysau ariannol y mae pob sefydliad yn ei wynebu, a'r angen iddynt weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'u heriau cyffredin.

C.1.5: Beth yw eich barn ar y weithdrefn ar gyfer enwi'r siroedd newydd?

3.17 Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol o'r farn y dylai'r enwau ar gyfer y siroedd newydd fod â pherthynas â'r bobl sy'n byw yno. Pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i gynnwys y cyhoedd yn y broses enwi. Roeddent o'r farn y gallai cynnwys barn y cyhoedd yn y gweithdrefnau ar gyfer enwi siroedd, a chytuno ar enwau y gallai trigolion uniaethu â hwy, gynyddu cefnogaeth gyffredinol y bobl leol o'r Bil.

Ffigur 5 – Nifer yr ymatebwyr a'u dewisiadau o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am enwi'r Siroedd newydd.



3.18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno, fel y nodir yn y Bil Drafft, mai'r awdurdodau cysgodol ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu ar yr enwau. Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol o'r farn y dylid ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y broses, er mwyn gwneud yn siŵr y gallai trigolion uniaethu'n rhwydd â'u sir newydd. Awgrymwyd bod yr ymagwedd o benderfynu ar yr enwau newydd cyn 2020 cyn cynnal yr etholiadau awdurdod lleol newydd yn synhwyrol ac y byddai'n arbed yr angen am unrhyw ddiwygiadau canlyniadol rhag digwydd ddwywaith, ac un ar ôl y llall mewn byr o dro. Rhoddwyd cefnogaeth i ddarparu pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru, er mwyn gweithredu hynny.

3.19 Cyflwynwyd amrywiaeth o ymatebion o ran pa feini prawf y dylid eu defnyddio wrth sefydlu enwau priodol ar gyfer y siroedd newydd ond nid argymhellwyd unrhyw egwyddor bendant yn yr ymatebion. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd y dylai'r enwau gael eu bathu o gysylltiadau hanesyddol (megis yr enwau siroedd blaenorol,


Dyfed, Morgannwg Ganol ac ati), neu ar y llaw arall, dylai dull mwy cyfoes roi blaenoriaeth i'r prif aneddfeydd yn y siroedd newydd.

3.20 Argymhellodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r enwau newydd fod yn ieithyddol niwtral (hynny yw, yr un fath yn y Gymraeg a'r Saesneg), megis Powys, neu y dylid rhoi blaenoriaeth i ddewis enwau ar gyfer ardaloedd a adnabyddir yn fwy cyffredinol, ar draws y DU yn arbennig.

C.1.6: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i amserlen etholiadau Llywodraeth Leol??

3.21 Cyflwynodd ymatebwyr argymhellion ar gyfer y cyfnod priodol o amser y dylai aelod etholedig wasanaethu, yn ogystal ag awgrymiadau ynglŷn â sut y byddai angen rheoli'r cyfnod pontio ar gyfer y siroedd newydd. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod angen i gynghorwyr fod yn eu swydd am ddigon o amser i oruchwyllo newid effeithiol, gan argymhell hefyd ymagwedd gytbwys at yr amserlen, er mwyn sicrhau bod etholiadau yn parhau i ddiogelu atebolrwydd i etholwyr lleol.

Ffigur 6 – Nifer yr ymatebwyr a'u dewisiadau ar gyfer amserlen etholiadau a gynigir yn y Bil Drafft.



3.22 Roedd y rhan fwyaf o'r adborth a dderbyniwyd am yr amserlen etholiadau a gynigiwyd yn y Bil Drafft yn gefnogol. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y darpariaethau'n briodol a hefyd ei bod yn synhwyrol cael patrwm sefydlog wrth fynd ymlaen. Ymysg y gwahanol awgrymiadau ynglŷn â'r amserlen, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn mai'r cynnig o gylch pum mlynedd yn dechrau yn 2023 oedd yr amserlen briodol.

3.23 O ran y cyfnod pontio rhwng 2017 a 2023, mynegwyd pryder ymysg ymatebwyr ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig. Pwysleisiodd ymatebwyr effaith y trefniadau pontio a'r gofynion cystadleuol ar aelodau, gan nodi na ddylid tanbrizio hynny, yn enwedig

pe byddai'r un unigolyn yn aelod o gyngor sydd eisoes yn bodoli ac awdurdod cysgodol ar yr un pryd. O ran y trefniadau pontio a nodir yn y Bil Drafft, byddai angen rheoli'n ofalus y cyfnod rhwng yr etholiadau lleol yn 2017 a diddymu'r hen awdurdodau yn 2020, er mwyn sicrhau y cynhelid arweinyddiaeth a chanolbwynt cryf. Awgrymwyd y dylid hepgor etholiadau lleol 2017 ac ymestyn y tymor presennol hyd y daw'r prif newidiadau i rym ar gyfer ethol yr awdurdodau cysgodol yn 2019.

3.24 Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried ymhellach y cylch chwe blynedd unigol ar gyfer cynghorau cymunedau a thref, gan yr ystyrid bod hynny'n ymrwymiad hir iawn i aelodau a oedd yn gweithredu mewn swydd wirfoddol am ddim tâl.

Roedd sylwadau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dylai'r broses gychwyn mor gyflym â phosibl, er mwyn lleihau baich costau ychwanegol.
- Yr un yw egwyddor mandad democrataidd ar gyfer cynghorau sir ag y sydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref, ac nid oedd rheswm dros wneud y gwahaniaethiad. O ganlyniad, dylai cynghorwyr sir wasanaethu am yr un tymor yn ystod y cyfnod pontio â chynghorwyr cymuned a thref.
- Awgrymodd Cyngor Sir Powys y dylid ymestyn eu tymor presennol hyd at 2018, ac wedyn am dymor pum mlynedd, ar sail y nifer llai o gynghorwyr a gynigiwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW) yn 2011.

C.1.7: A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y darpariaethau yn adran 16 ac Atodlen 3 y Bil Drafft sy'n ymwneud â chyllid Llywodraeth Leol?

3.25 Rhoddodd ymatebwyr sylwadau ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y newidiadau deddfwriaethol a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer cyllid llywodraeth leol, ond y darpariaethau ar gyfer rheoli'r pontio i awdurdodau newydd oedd prif ganolbwynt y sylwadau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'n briodol defnyddio dull graddol yn ystod y pontio, ond roeddent o'r farn bod angen mwy o eglurder.

3.26 Cododd ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r Dreth Gyngor yn ystod y cyfnod pontio, pan oedd sawl un yn cytuno y byddai mwy o eglurder ynglŷn â'r broses ar gyfer cysoni'r Dreth Gyngor o fudd. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y byddai'n rhaid cynllunio'r broses bontio yn ofalus oherwydd y lefelau amrywiol o'r Dreth Gyngor mewn ardaloedd awdurdod lleol sy'n ymuno.

3.27 Awgrymwyd y byddai angen asesu'r effaith ar gyllidebau cynghorau cymuned a thref yn ofalus pe byddai diwygio yn annog mwy o drosglwyddo swyddogaethau, asedau a gwasanaethau i'r haen hon oddi wrth brif awdurdodau. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen i adnoddau fod ar gael i ymdrin â materion megis uno asedau a gwasanaethau, yn ogystal â mabwysiadu swyddogaethau awdurdodau, yn ogystal â rheoli'r agenda drawsnewid o ran trefniadau ffiniau. Argymhellodd Un Llais Cymru, ynghyd â throsglwyddo swyddogaethau, asedau a gwasanaethau i

gynghorau cymuned a thref, y dylid hefyd ddarparu cyfran o gyllid y llywodraeth ganolog.

Roedd sylwadau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dylid trin y sector cyngorau cymuned yn yr un modd â chynghorau sir, gyda phwyllgor pontio lleol yn cael ei benodi i oruchwylio newidiadau yn dilyn y broses adolygu cyngorau cymuned.
- Roedd yn bwysig yn ystod y prosesau pontio bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau sydd eisoes wedi eu sefydlu rhwng awdurdodau a'r sector gwirfoddol yn galluogi gwasanaethau i barhau yn ddi-dor.

C.1.8: Sut y gallai Llywodraeth Cymru fesur y nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig ar hyn o bryd?

3.28 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod angen mynd i'r afael â'r broblem o osgoi talu ardrethi annomestig, ac roedd cefnogaeth i'r darpariaethau yn y Bil Drafft ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem hon. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y golled ariannol sy'n digwydd ar hyn o bryd o ganlyniad i bobl sy'n osgoi talu ardrethi, ond roeddent yn sylweddoli'r anhawster ynglŷn â mesur yn gywir y lefelau presennol o osgoi talu.

3.29 Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau a oedd yn cynnig dulliau o fonitro'r lefelau o osgoi talu mewn awdurdodau. Yr argymhelliad mwyaf poblogaidd oedd creu gweithgor atal osgoi a arweinir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r dasg benodol o nodi'r lefelau presennol o osgoi talu. Nod y dull hwn fyddai rhannu arferion gorau ar draws yr awdurdodau, a nodi'r mathau mwyaf cyffredin a chostus o osgoi talu neu gamddefnyddio categorïau ar gyfer rhyddhadau ac eithriadau. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hynny'n caniatáu ar gyfer meincnodi cyson i ddarparu dull wedi ei seilio ar dystiolaeth o ba ymyraethau a champau gweithredu sy'n gweithio orau. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) o'r farn y gellid manteisio i'r eithaf ar y dull hwnnw trwy gynnwys Llywodraeth Cymru, CLILC ac ymarferwyr arweiniol mewn gweithgor trawsawdurdod.

3.30 Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o eglurhad i fusnesau ynglŷn â'r gweithdrefnau a'r termau ar gyfer talu ardrethi annomestig, ac y byddai o fudd gosod dyletswydd ar fusnesau i gofrestru/datgan unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau wrth yr awdurdodau perthnasol mewn da bryd. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hynny o gymorth i fesur achosion o osgoi talu yn y lle cyntaf.

3.31 Pwysleisiodd ymatebwyr sut y gallai osgoi talu fod yn ddiahebol o anodd ei fesur, ac roedd rhai yn wyladwrs o gyflwyno proses weinyddu gostus i ymchwilio i rywbeth, sydd, trwy ddiffiniad, yn ddamcaniaethol. Cynigiodd yr ymatebwyr hyn y syniad o gomisiynu prosiect ymchwil ar gyfer ymchwilio a hysbysu am y lefelau presennol o osgoi talu, ac yn y pen draw nodi'r meysydd allweddol lle y profwyd bod osgoi talu yn broblem.

3.32 Argymhellodd nifer o ymatebwyr hefyd y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb o fesur y lefelau presennol o osgoi talu i'r awdurdodau lleol newydd. Roedd yr ymatebwyr yn credu bod awdurdodau yn cadw'r cofnodion hynny ac y dylent ddefnyddio diwydrwydd dyladwy i gymryd camau dilynol ar gyfer achosion o osgoi talu ardrethi annomestig. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ymatebwyr nodi cost uchel a baich adnoddau ar awdurdodau, yn enwedig o ran ymddangosiadau llys, ffioedd a gwell cyfleusterau TG, a fyddai'n afresymol i'r awdurdodau heb y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd un ymateb hefyd y gallai fod yn anos monitro achosion o osgoi talu mewn awdurdodau newydd 'mwy' ac y gallai'r achosion hynny gynyddu.


3.33 Argymhellodd ymatebwyr hefyd y defnydd o Awdurdodau Bilio fel y ffynhonnell o ddadansoddiad parhaus o osgoi talu, gan gydweithio â'r Comisiwn Elusennau i ganfod elusennau twyllodrus ac er mwyn i'r awdurdodau lleol gynhyrchu ystadegau chwarterol ar atal osgoi talu.

C.1.9: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai deddfwriaeth yn y dyfodol helpu i leihau'r nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig?

3.34 Er bod yr ymatebion yn niferus ac amrywiol, roedd y rhan fwyaf yn cytuno ar bedwar prif ddiwygiad i'r ddeddfwriaeth a fyddai o fudd i leihau achosion o osgoi talu.

3.35 Argymhellodd yr ymatebwyr y dylid gosod dyletswydd statudol ar y talwr ardrethi i ddarparu manylion am newid mewn amgylchiadau. Roedd yr ymatebion yn argymhell y dylai'r ddyletswydd ar feddianwyr a pherchnogion gydymffurfio â'r ddyletswydd ar dalwyr y Dreth Gyngor i adrodd am unrhyw newid mewn amgylchiadau wrth yr awdurdod perthnasol. Ystyriodd yr ymatebwyr wahanol amserlenni a allai fod yn briodol ar gyfer hysbysiadau o'r fath ond gwnaethant gytuno y gallai'r ddeddfwriaeth newydd gynnwys cosbau am beidio â darparu gwybodaeth neu ddarparu gwybodaeth anghywir yn fwriadol.

Ffigur 7 – Ffyrdd awgrymedig o ddeddfu er mwyn helpu i leihau achosion o osgoi talu Ardrethi Annomestig yn y dyfodol.



3.36 Cafwyd cefnogaeth gref gan yr ymatebwyr ar gyfer newid y ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r broblem o osgoi talu. Rhoddodd CLILC, ymysg llawer o ymatebwyr eraill, gefnogaeth i adolygiad sylfaenol o'r ddeddfwriaeth Ardrethi Annomestig sydd â'r nod o ddarparu eglurder ynglŷn â pha fathau o eiddo sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad neu esemptiadau. Byddai CLILC yn croesawu dyletswydd statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi hysbysu awdurdodau lleol am unrhyw newid mewn amgylchiadau, a byddai'n ystyried argymhelliad ar gyfer cyfraddau defnydd cymwyso ac ymestyn y "rheol chwe wythnos". Mae CLILC yn cytuno hefyd ei bod yn werth adolygu'r defnydd o elusennau gan berchnogion eiddo masnachol er mwyn cael rhyddhad ar gyfer eiddo gwag.

3.37 Awgrymodd yr ymatebwyr y gellid ymestyn y cyfnod gofynnol o 42 diwrnod o feddiannaeth cyn caniatáu esemptiad 6 mis rhag talu ardrethi i 3, neu 6 mis, yn dibynnu ar y math o feddiannydd (eiddo masnachol neu ddiwydiannol yn y drefn honno). Roedd sawl ymateb hefyd yn awgrymu y gallai'r ddeddfwriaeth gynnwys cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gellid eu gwneud bob blwyddyn a/neu nifer yr ôl-geisiadau y gellid eu gwneud ar gyfer esemptiad ar ôl meddiannu eiddo am y cyfnod cymhwyso.

3.38 Yn ogystal â'r sylwadau uchod, awgrymodd yr ymatebwyr hefyd fwy o bwerau ar gyfer gorfodi ac adennill, gan ystyried ffyrdd o chwilio am dystiolaeth o feddiannaeth pan wneir ôl-hawliadau, ac o ganlyniad, leihau'r posibilrwydd o hawliadau twyllodrus.

Roedd sylwadau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dylid ystyried anghydfodau ynglŷn â rhyddhad ac atebolrwydd yn y Tribiwnlys Prisio yn hytrach na'r Llys Ynadon oherwydd y baich ariannol a gweinyddol ar awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau Cymru wedi eu cyfyngu i hawliad o £70.00 o gostau llys, hyd yn oed pan uwchgyfeirir anghydfodau trwy'r llysoedd. Dylai'r talwr ardrethi hefyd fod yn gyfrifol am dalu'r gyfradd wrth i'r Tribiwnlys Prisio ystyried ei apêl.
- Gellid hefyd ystyried argymell canran defnydd ofynnol o'r eiddo cyn ei ddosbarthu fel un a feddiannir at ddibenion esemptiad yn y dyfodol, gan fod nifer o achosion atal osgoi yn golygu'r feddiannaeth leiaf bosibl o adeilad.
- Dylid ystyried y trothwyon ar gyfer Rhyddhad Eiddo Gwag a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach gyda'i gilydd, er mwyn osgoi'r arfer o hawlio meddiannaeth Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach fel dewis arall i bryniant gwell ar gyfer ardoll y Rhyddhad Eiddo Gwag.
- Cafwyd cefnogaeth i bolisiau Ardrethi Annomestig sy'n annog twf mewn busnesau bach lleol, ac sydd hefyd efallai yn gwobrwyo cyflogwyr da/moesol (e.e. y rhai hynny sy'n talu Cyflog Byw). Croesawyd y camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â rhyddhad Ardrethi Annomestig.
- Mae osgoi talu wedi ei normaleiddio gymaint fel ei bod yn anodd gweld sut y gellir gwrthdroi'r duedd. Oni bai y gwneir i ffwrdd â'r cymhelliad ariannol i gamddefnyddio cyfnodau meddiannaeth, mae'n debyg y bydd y duedd hon yn parhau.

C.1.10: Ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru alluogi llywodraeth leol i leihau'r nifer sy'n osgoi talu ac sy'n twyllo'r system Ardrethu Annomestig?

3.39 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr anawsterau o ran adnabod achosion o osgoi talu a thwyll o fewn y system Ardrethu Annomestig ac roedd y mwyafrif o'r awgrymiadau ar ffyrdd i drechu hyn yn ymwneud â rhannu mwy o wybodaeth a chyllid wedi'i dargedu.

3.40 Roedd CLILC yn credu y dylai Llywodraeth Cymru dargedu'r cyllid, gan edrych ar enghreifftiau penodol o gamddefnydd, gan y gallai hyn annog cydymffurfio ac anfon neges i'r rheini sy'n ceisio osgoi talu. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r farn hon, gan deimlo y byddai targedu achosion o osgoi talu ardrethi proffil uchel yn annog eraill i beidio â gwneud yr un peth. Cytunodd yr ymatebwyr hefyd y byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn sefydlu gweithgor/uned arbenigol.

3.41 Roedd yr hyn a gyflwynwyd o ran edrych ar sut y gallai Llywodraeth Cymru alluogi llywodraeth leol i leihau'r nifer sy'n osgoi talu ac sy'n twyllo'r system yn berthnasol iawn i'r ymatebion a gafodd eu crynhoi yng Nghwestiynau 1.8 ac 1.9

uchod. Yn ogystal â rhannu mwy o wybodaeth, roedd y prif ddulliau a argymhellwyd gan ymatebwyr mewn cyswllt â Chwestiwn 1.10 yn cynnwys cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol, yr awdurdodau tân ac achub, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y Comisiwn Elusennau a landlordiaid mawr. Teimlwyd nad oedd digon o adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer osgoi Ardrethi Annomestig, a byddai mwy o staff ac arian o gymorth, yn ogystal â rhoi mwy o bwerau gorfodi i awdurdodau.


Roedd sylwadau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Byddai ail-ddylunio ffurflenni er mwyn gwneud ymatebion cadarnhaol yn orfodol (er enghraifft cael 'sero' fel ymateb yn hytrach na gadael blwch gwag ar ffurflenni ac ati) yn cyfyngu achosion posibl o osgoi talu.
- Ystyriodd Rhan 1 o'r Comisiwn Silk: Treth ar Werth Tir ddewis arall i Ardrethi Annomestig. Y broblem gydag Ardrethi Annomestig yw mai'r meddiannwr sy'n gyfrifol amdanynt fel arfer, ac nid yw'n ymwneud rhyw lawer â chyflyrau masnachu na throsiant, ac felly maent yn faich ychwanegol ar fenter. Ar y llaw arall, byddai Treth ar Werth Tir yn syrthio ar ysgwyddau'r perchennog ac yn ymwneud â'r amgylchiadau economaidd hirdymor, wedi'u gwreiddio yng ngwerth y tir.
- Dylid trosglwyddo'r gwaith o asesu a chasglu i Awdurdod Trethi Cymru Gyfan. Mae hwn yn gorgyffwrdd â threth dir y dreth stamp.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut y gellid ehangu'r Fenter Dwyll Genedlaethol, er enghraifft, i gynnwys gwirio amser real o hawl pobl i gael eu heiddo wedi'u heithrio o'r Ardrethi Annomestig.
- O ran eiddo sy'n dafarnau/clybiau sydd â thrwyddedau'n gysylltiedig â hwy, efallai y byddai'n haws atal ad-droseddwyd rhag osgoi talu ardrethi pe bai'n haws gwrthod ceisiadau am drwyddedau newydd yn y lle cyntaf, yn enwedig os oedd yr ymgeisydd yn adnabyddus am osgoi talu Ardrethi Annomestig yn y gorffennol.

C.1.11: A ydych chi'n cytuno y dylid diddymu'r siroedd wedi eu cadw a gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn penodi Arglwydd Raglawiaid ac Uchel Siryfion mewn perthynas â'r siroedd fydd yn bodoli ar ôl 1 Ebrill 2020?

3.42 Roedd yr ymatebwyr a roddodd eu sylwadau ar y cynigion yn cydnabod y budd gweinyddol o symud i ffwrdd o ddefnyddio siroedd wedi'u cadw (a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) gan fod y mwyafrif o'r dibenion y crëwyd y siroedd wedi'u cadw ar eu cyfer wedi diflannu bellach. Yn gyffredinol, cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr hefyd y dylid cymhwyso swyddogaethau'r Arglwydd Raglawiaid a'r Uchel Siryfion i'r strwythurau sirol newydd yng Nghymru ar ôl 1 Ebrill 2020.

Ffigur 8 – Safbwyntiau am ba un a ddylid cadw stet y siroedd wedi'u cadw yng Nghymru.



3.43 Cafwyd cefnogaeth frwd gan ymatebwyr i'r cynigion o fewn y Bil Drafft i ddiddymu'r siroedd sydd wedi'u cadw. Gan y byddai'r ffiniau ar gyfer y siroedd newydd yn ffurfio'r rhanbarthau gweinyddol newydd yn lle'r siroedd wedi'u cadw, cytunwyd yn gyffredinol y byddai'n briodol i ddiddymu'r siroedd presennol sydd wedi'u cadw. Teimlai'r ymatebwyr y byddai'n synhwyrol creu ardal ddaearyddol gyson at yr holl ddibenion dinesig a gweinyddol. O'r ymatebwyr hynny a nododd y byddai'n well ganddynt gadw'r siroedd wedi'u cadw, y prif reswm yn erbyn eu diddymu oedd eu bod am gadw'r enwau. Teimlai Un Llais Cymru, ymhlith eraill, bod yr enwau presennol yn rhan o hanes modern Cymru, ond derbyniwyd y byddai dal angen newid ffiniau'r siroedd wedi'u cadw i adlewyrchu'r siroedd newydd.

3.44 Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd angen i swyddi'r Arglwydd Raglawiaid a'r Uchel Siryfion barhau bellach, gan nodi eu cred bod yn ddim mwy na swyddogaethau symbolig erbyn hyn. Ystyriodd un ymatebwr fod budd i'r penodiadau hyn ac awgrymodd adolygu swyddogaethau'r Arglwydd Raglawiaid a'r Uchel Siryfion.

C.1.12: A oes materion eraill o natur dechnegol y dylid hefyd eu hystyried?

3.45 Darparodd ymatebwyr sylwadau amrywiol ar faterion yr oeddent hefyd yn credu y dylid eu hystyried o fewn y Bil Drafft. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r cyfnod pontio tra bod yr awdurdodau newydd yn cael eu creu a sut y byddai'r broses gyffredinol a'r cyllid yn cael ei reoli yn ystod y cyfnod hwn.

3.46 Cyflwynwyd sylwadau pellach o ran y diffyg manylion yn y cynigion i ariannu'r broses uno. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) gan nodi bod y ffigurau a ddefnyddiwyd i asesu'r hyfywedd ariannol o ad-drefnu llywodraeth leol yn seiliedig ar astudiaeth KPMG/CIPFA ddadleuol nad oedd yn ystyried oed y data neu/na'n ystyried yr arbedion rhagamcanol y bydd awdurdodau lleol wedi'u gwneud erbyn 2019/20. Gan gyfeirio at allu'r awdurdodau cysgodol i reoli'r cyfnod pontio'n llwyddiannus, credai ymatebwyr nad oedd unrhyw dystiolaeth o asesu ymarferion cyffelyb o'r math neu'r faint hwn yn unrhyw le arall, nac unrhyw asesiad o'r risgiau ariannol o symud o'r awdurdodau cyfredol i'r rhai newydd. Yn gyffredinol, credai'r ymatebwyr fod angen mwy o eglurhad, gan ddefnyddio ffigurau cyfredol a rhagamcanol, er mwyn mynd ati yn y ffordd orau i ystyried a pharatoi ar gyfer y diwygio. Credai ymatebwyr hefyd y byddai angen ystyried manylion cysoni cyflogau a thermâu, yn ogystal â materion staffio mewn mwy o fanylder er mwyn bod yn y sefyllfa orau i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio.

3.47 Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd gwestiynu pam nad oedd y darpariaethau yn cyfeirio o gwbl at feysydd gwasanaeth penodol eraill y byddai angen mynd i'r afael â nhw, fel cysoni'r gwasanaethau hynny o fewn y cyngor a allai fod yn cael eu darparu'n annibynnol o fewn yr awdurdodau lleol presennol (e.e. addysg, tai, gwastraff, priffyrdd).

3.48 Ailadroddodd yr ymatebwyr yr angen am fwy o eglurhad ynghylch y Dreth Gyngor a chredai llawer y dylid ystyried y mater hwn yn flaenoriaeth sylweddol, o ran cyfreithlondeb ac er budd trigolion yn yr awdurdodau sy'n uno.

3.49 Nododd Comisiynydd y Gymraeg ac ymatebwyr eraill yr angen i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol.

3.50 Roedd nifer o'r ymatebion yn argymhell y dylid ystyried nodweddion gwledig/trefol awdurdodau lleol newydd wrth roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW). Nid oedd yr ymatebwyr yn credu ei bod yn briodol gosod un gymhareb cynghorydd i etholwr gyffredinol ledled y siroedd newydd yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn adlewyrchu dwysedd a threfoliad amrywiol y boblogaeth ledled ardaloedd yng Nghymru, felly byddai'n cyfyngu gallu'r LDBCW i roi trefniadau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar waith. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â nodweddion a demograffeg wledig/trefol y siroedd newydd er mwyn sefydlu dull gweithio cynaliadwy o ddyrannu cynghorwyr.

3.51 Nododd Tân ac Achub De Cymru y newidiadau arfaethedig i ffiniau cyfredol yr awdurdodau lleol, a mynegwyd pryder ganddynt ynghylch y ffaith nad oedd y ddeddfwriaeth ddrafft yn ymdrin yn ddigonol â'r goblygiadau canlyniadol i gyrrff statudol eraill, megis yr awdurdodau tân ac achub. Byddai diddymu'r awdurdodau lleol presennol yn cael effeithiau canlyniadol ar Orchmynion Cyfunol yr Awdurdodau Tân ac Achub.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

C.2.1: A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil Drafft?

3.52 Cyflwynodd yr ymatebwyr sylwadau am amrywiaeth o faterion a oedd yn ymwneud â'r darpariaethau ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn y Bil Drafft. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion fod pobl o blaid cyflwyno darpariaethau yn yr adran hon. Roedd y mwyafrif o'r awdurdodau lleol (20) yn croesawu'r darpariaethau yn Rhan 2 ac roedd nifer fawr o gynghorau cymuned a thref (23) hefyd o blaid y cynigion.

3.53 Mynegwyd pryder ynghylch y cyfyngiadau cyfreithiol a oedd yn ymwneud â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol a pha un a fyddai'r rhain yn ei gwneud hi'n anodd ei weithredu. Amlygodd yr ymatebwyr sut yr oedd y Bil Drafft yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer hwn trwy rwystro awdurdodau lleol cymwys rhag gwneud unrhyw beth nad oes ganddynt yr hawl i'w wneud ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth gyfredol neu ddeddfwriaeth y dyfodol, a nodwyd sut y byddai'n rhaid i gyfreithwyr awdurdodau lleol ystyried y darpariaethau hyn yn ofalus cyn y gellid defnyddio'r pwerau. Nododd Cyngor Sir Dinbych nad oedd yn gweld yr angen am gyfyngiadau pellach ac anogodd Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'u pwerau i wneud rheoliadau o ran ymarfer y pŵer cyffredinol yn y fath fodd fel eu bod yn lleihau, yn hytrach na chynyddu, y rhwystrau i'w ddefnyddio. Er gwaethaf y cyfyngiadau cyfreithiol a gynigiwyd yn y Bil Drafft, nododd CLILC fod y pŵer cymhwysedd cyffredinol a gyflwynwyd yn Lloegr, o dan Ddeddf Lleoliaeth 2013, wedi rhoi'r hyder i awdurdodau weithio mewn ffyrdd newydd a datblygu gwasanaethau a phartneriaethau newydd.

3.54 Croesawodd Cyngor Sir y Fflint y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ond tynnodd sylw at absenoldeb pŵer cyfwerth i rannau eraill o'r sector cyhoeddus (megis aelodau eraill o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus) yr oedd llywodraeth leol yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â nhw. Credai'r Cyngor y gallai hyn gyfyngu ar uchelgais a chydweithrediad ymarferol. Gan gytuno â'r farn hon, gwnaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd gwestiynu a ddylid ehangu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i aelodau statudol eraill y byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn hwyluso pob un o bartneriaid y bwrdd i fynd ati mewn modd cyfannol i sbarduno diwygiad sector cyhoeddus cydgysylltiedig, ac yn sicrhau nad oedd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu heffeithio gan ddiffyg pŵer partneriaid penodol i weithredu.

C.2.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â chynghorau cymuned â chymhwysedd?

3.55 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid caniatáu i gynghorau cymuned a thref gael y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Cydnabuwyd y gallai cyflwyno'r ddarpariaeth hon greu budd ehangach i enw da cynghorau, trwy roi rhywfaint o hyder i sefydliadau eraill yng ngallu a chapasiti'r cynghorau.

3.56 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad oedd y term 'cymhwysedd' yn briodol o ran cynghorau tref a chymuned, yn bennaf oherwydd byddai modd labelu'r rheini nad oeddent yn bodloni'r meini prawf o ran cael y pŵer cymhwysedd

cyffredinol fel rhai '*anghymwys*'. Credai'r ymatebwyr y gallai pobl ddod i gasgliadau a goblygiadau negyddol a allai achosi llawer o niwed diangen y gellid ei osgoi i enw da'r cyngor. Er bod yr ymatebwyr yn sylweddoli nad oedd y darpariaethau'n gosod unrhyw derminoleg ar gynghorau nad ydynt yn awgrymu bod ganddynt '*gymhwysedd*', awgrymodd llawer o'r ymatebwyr dermau eraill ar gyfer y ddau.

3.57 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn poeni ynghylch y meini prawf a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer cynghorau er mwyn bod yn gymwys i gael statws '*cymhwysedd*'. Roedd yr ymatebwyr yn poeni ynghylch y meini prawf a oedd ei gwneud yn ofynnol i glercod a chyfran o'r cynghorwyr fyddai'n cael eu hethol fod â chymhwysedd, ac y gallai hyn fod yn wrthgynhyrchol ac arwain at golli personél profiadol, ac felly gyfyngu ar allu cynghorau i gael digon o adnoddau.

3.58 Er bod yr ymatebwyr yn croesawu'r pwerau ychwanegol sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref, codwyd pryder ynghylch pa mor ymarferol oedd hi i ofyn i glercod gael cymhwyster proffesiynol perthnasol fel y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol. Cydnabuwyd gan lawer o ymatebwyr bod angen cael clercod â chymwysterau priodol. Fel enghraifft, fodd bynnag, eglurodd Cyngor Cymuned Offa mai dim ond llond llaw o glercod yn y Gogledd oedd yn meddu ar y cymhwyster hwn ar hyn o bryd. Cytunodd yr ymatebwyr y byddai mwy o eglurhad o'r cymwysterau perthnasol yn ddefnyddiol fel y gallai cynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod clercod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Cynigiodd llawer o ymatebwyr y dylid cynnwys darpariaeth i gydnabod clercod sydd naill ai wedi bod mewn swydd am gyfnod hir, neu sydd â phrofiad/cymwysterau priodol eraill.

3.59 Awgrymodd ymatebwyr mai ychydig iawn o gynghorau cymuned a thref ledled Cymru fyddai'n gallu ateb y gofyniad i gael o leiaf dwy ran o dair o gynghorau cymuned neu dref yn aelodau etholedig. Awgrymwyd y byddai hyn yn arbennig o anodd mewn ardaloedd gwledig, pan oedd pellteroedd yn eithafol, cyfathrebu'n anodd a chael pobl i fynychu yn llawer mwy costus. Nodwyd mewn ymatebion na fyddai digon o ymgeiswyr mewn rhai ardaloedd y gellid eu hethol i fodloni'r agwedd hon ar y meini prawf cymhwysedd, felly byddai hyn yn rhwystr i ddatblygu nod strategol ehangach y darpariaethau.

3.60 Mynegodd yr ymatebwyr bryder ynghylch asesiad parhaus cyngor '*cymwys*'. Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai '*cymhwysedd*' parhaus gael ei asesu'n fwy rheolaidd, ac y dylid ystyried cael darpariaeth i ddiddymu'r cymhwysedd i gael pŵer cymhwysedd cyffredinol pan fo'n briodol. Roedd yr ymatebwyr yn poeni y byddai'r cysyniad o gymhwysedd yn colli ei werth pe na bai cynghorau'n cyflawni fel y disgwyl.

3.61 Roedd llawer o ymatebwyr yn credu bod angen cael mwy o eglurhad ar y darpariaethau. Awgrymwyd y byddai cynghorau'n cael budd o ganllawiau a rheolau mwy eglur er mwyn gallu gweithio'n haws o fewn eu gofynion cyfreithiol, a gweithredu'r gofynion diweddaraf, a pharatoi eu hunain ar gyfer cyflawni'r meini prawf cymhwysedd angenrheidiol. Credai rhai ymatebwyr y dylai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol gael ei datganoli i bob cyngor cymuned a thref, neu i ddim un ohonynt, yn hytrach na chael meini prawf cymhwys.

Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol

C.3.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil Drafft?

3.62 Cyflwynodd ymatebwyr sylwadau ar ystod o faterion a gynhwyswyd yn Rhan 3, ond roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar y pwyllgorau ardaloedd cymunedol a'r ddyletswydd ynghylch cyfranogiad y cyhoedd a nodir yn fanwl yn y Bil Drafft.

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod unrhyw beth sy'n gwella cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol i'w ganmol. Fodd bynnag, cwestiynwyd yr angen i ddeddfu gan y byddai hyn yn gosod mwy o bwysau rheoleiddio ar awdurdodau lleol, gan leihau'r amser a gaiff ei dreulio a'r arian a gaiff ei wario ar wasanaethau rheng flaen. Amlinellir y safbwyntiau hyn isod.

3.63 Credai'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) y dylid cryfhau'r cynghorau cymuned cyfredol a dylai nifer o wasanaethau gael eu darparu yn uniongyrchol gan glystyrau o gynghorau cymuned, gyda chymorth yr awdurdod lleol, gydag arweiniad a chyfarwyddiadau. Teimlwyd bod hwn yn fodel mwy priodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn hytrach na'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol.

Dyma rai safbwyntiau eraill a fynegwyd:

- Cwestiynwyd pam nad oedd y ddyletswydd ynghylch cyfranogiad y cyhoedd yn ymestyn ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn hytrach na llywodraeth leol yn unig.
- Cwestiynwyd y cyswllt rhwng y pwyllgorau ardaloedd cymunedol a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus a mynegwyd y farn na ddylai meysydd y pwyllgorau gael eu cysylltu â'r meysydd cymunedol a ddiffinnir gan y byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

C.3.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ynghylch cyfranogiad y cyhoedd a'r gofyniad i ymgynghori ar y gyllideb flynyddol?

3.64 Cafwyd cefnogaeth frwd (71 allan o'r 72 a ymatebodd) dros y cysyniad o osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael cyfranogiad y cyhoedd.

3.65 Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a ymatebodd na ddylai hon fod yn broses ddeddfwriaethol. Yn hytrach, dylid annog arfer da a dylid sefydlu proses o rannu arfer da o'r fath trwy gyrff fel CLILC neu Lywodraeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol hefyd yn erbyn 'Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd' statudol, gan nodi y byddai'n ychwanegu mwy o ddryswch at bwy sy'n gyfrifol am wella cyfranogiad y cyhoedd mewn 'awdurdodau cysylltiedig', fel awdurdodau parc cenedlaethol neu awdurdodau tân ac achub yn eu hardaloedd.

3.66 Nododd Awdurdodau hefyd y byddai ymgynghori ar y gyllideb yn dod yn wrthgynhyrchiol ar y cyfan yn sgil y blaenoriaethau gwahanol a fyddai gan bobl. Ni fyddai'r cyngor yn gallu creu cyllideb ystyrlon oherwydd cymhlethdodau'r ardaloedd

yr oedd yn eu hariannu. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: *“Nid yw hwn yn ofyniad ar sefydliadau cyhoeddus eraill a rhaid i ni gofio bod Aelodau Etholedig yn cael eu hethol i gynrychioli barn y gymuned ac yn pennu'r gyllideb yn unol â hynny.”*

Dyma rai safbwyntiau eraill a fynegwyd:


- Pe bai'n rhaid i awdurdodau lleol adrodd ar eu cyllideb a'u gwybodaeth ariannol, awgrymodd UNSAIN y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu un ffurflen safonol er mwyn gallu gwneud cymariaethau hawdd ledled Cymru.
- Dylai unrhyw strategaeth gynnwys ac ymgorffori gwaith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn annog cymaint â phosibl o'r cyhoedd i gymryd rhan.
- Rhaid i unrhyw strategaeth gydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a helpu i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

C.3.3: Sut y dylid ceisio a dewis y cynrychiolwyr cymunedol i fod ar bwyllograu ardaloedd cymunedol?

3.67 Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (60 o'r 99 o ymatebwyr) yn erbyn y pwyllograu ardaloedd cymunedol mewn egwyddor ac yn credu y dylid archwilio modelau eraill. Credai nifer o'r ymatebwyr (17 o'r 99 o ymatebwyr) bod angen mwy o wybodaeth arnynt am swyddi a swyddogaethau'r pwyllograu ardaloedd cymunedol cyn y gallent roi unrhyw sylwadau pellach.

3.68 O'r ymatebwyr hynny a ymatebodd i'r cwestiwn ar sut y dylid ceisio a dewis cynrychiolwyr cymunedol, roedd y barnau a fynegwyd yn gytbwys o ran enwebiadau gan bawb a oedd yn ymwneud â'r pwyllograu ardaloedd cymunedol; etholiadau, dethol gan gynghorau sir a dethol gan y cynghorau cymuned. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd o blaid cael cynghorau cymuned i ddethol, roedd yr ymatebwyr yn dod yn bennaf o'r sector cyngor cymuned ac, yn yr un modd, daeth y gefnogaeth o blaid cael cynghorau sir i ddethol yn bennaf o'r awdurdodau lleol.

Ffigur 9 – Nifer yr ymatebwyr a'u barn ar sut y dylid dewis cynrychiolwyr cymunedol i fod ar bwyllgorau ardaloedd cymunedol.



3.69 Credai amrywiaeth o ymatebwyr y dylai aelodau o'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol gael eu hethol yn ddemocrataidd er mwyn cynnal atebolrwydd a chraffu cyhoeddus, yn enwedig os oeddent i gael pwerau dros ddarparu gwasanaethau. Credai nifer bychan o'r rheini a ymatebodd mai dim ond aelodau etholedig o'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol ddylai gael hawliau pleidleisio mewn cysylltiad â phroses benderfynu'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol.

3.70 Roedd sylwadau pellach yn awgrymu sefydlu fforwm cymunedol, gan alluogi pawb i fynychu a chyfrannu syniadau ar reolaeth effeithiol yr ardal, yn hytrach na dewis nifer bychan o sefydliadau i'w gwahodd i fod ar y pwyllgorau ardaloedd cymunedol.

C.3.4: A ydych chi'n cytuno y dylai cynghorau sir allu dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol? Os ydych, a oes unrhyw swyddogaethau y dylid neu na ddylid eu dirprwyo?

3.71 Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid dirprwyo unrhyw swyddogaethau neu ddarpariaeth o wasanaethau i'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol. Yn hytrach, roeddent yn credu mai'r cynghorau cymuned a chynghorau sir ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Ystyriwyd hwy yn haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a fyddai'n tynnu'r sylw oddi ar ddarparu gwasanaethau ledled y gymuned. Roedd y rheini a oedd yn cytuno y gallai'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol gael rhywfaint o swyddogaethau yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau o ran cynghori a chraffu. Credai'r ymatebwyr y dylai gwasanaethau craidd aros gyda'r cynghorau sir bob amser er mwyn darparu strategaeth glir ac osgoi loteri cod post o wasanaethau hanfodol, megis iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. Pan oedd ymatebwyr yn cytuno y gallai swyddogaethau gael eu dirprwyo, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: *"Datblygiad economaidd o fewn pob ardal"*

awdurdod blaenorol, tai, y gwasanaeth ieuencid, diwylliant a hamdden, swyddogaethau amgylcheddol nad oeddent yn rhai strategol". Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw farn gytûn.

3.72 Y farn gyffredinol ar draws yr ymatebion oedd bod angen eglurhad ar waith ac aelodaeth y pwyllgorau ardaloedd cymunedol, cyn y gallai ymatebwyr roi sylwadau ar ddirprwyo swyddogaethau i'r pwyllgorau yn y dyfodol.

3.73 Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn rhannu'r un safbwyntiau cyffredinol â'r ymatebwyr a amlinellwyd uchod. Roedd un-ar-ddeg yn cytuno y byddai darparu gwasanaethau penodol ar lefel leol yn fuddiol i'r etholwyr, a chytunwyd mai'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol fyddai'r cyrff gorau i ddarparu gwasanaethau lleol, gan elwa ar arbedion maint. Roedd wyth awdurdod yn cytuno y dylai gwasanaethau craidd aros gyda'r cyngor er mwyn darparu strategaeth glir. Credai chwe awdurdod bod angen eglurhad er mwyn rhoi sylwadau pellach, ac roedd tri yn anghytuno â'r cynnig, gan nodi y byddai'n well pe bai'r gwasanaethau yn cael eu dirprwyo i gynghorau cymuned a thref gan y byddai pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn ychwanegu lefel ychwanegol o lywodraeth na fyddai'n gwella'r ddarpariaeth gyffredinol o gwbl.

C.3.5: A oes gennych unrhyw farn ynghylch a oes angen rhoi trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer pwyllgorau ardal presennol, neu a yw cyfnod arweiniol da yn ddigonol?


3.74 Yn gyffredinol, teimlwyd bod angen eglurhad cyn y gallai'r ymatebwyr roi sylwadau ar yr angen am drefniadau pontio. Fodd bynnag, cytunodd yr ymatebwyr y byddai angen swm sylweddol o amser paratoadol cyn y gellid gwneud newidiadau i'r pwyllgorau ardaloedd presennol, lle'r oeddent yn bodoli ar hyn o bryd.

3.75 Cafwyd nifer o safbwyntiau gwahanol o ran amseru'r gwaith o sefydlu'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol newydd. Noddodd rhai na ellid cwblhau hyn hyd oni fyddai'r awdurdodau lleol newydd wedi'u sefydlu ac mai'r awdurdodau lleol eu hunain ddylai sefydlu'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol newydd, yn dibynnu ar wybodaeth leol a strwythurau gweithio. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus arwain y cyfnod pontio a chreu'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol gan y byddent wedi cael amser i sefydlu eu hunain (o fis Ebrill 2016), yn hytrach na'r awdurdodau cysgodol na fyddai'n cael eu sefydlu tan 2019.

C.3.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am y darpariaethau diwygiedig ar gyfer 'ceisiadau ar gyfer gwella' neu ar y rhyngweithio rhwng y darpariaethau hyn a'r rheini sy'n ymwneud â'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd (Rhan 3, Pennod 2) a phwyllgorau ardaloedd cymunedol (Rhan 3, Pennod 3)?

3.76 Credai mwyafrif yr ymatebwyr bod y cynnig yn y Bil Drafft yn ddull rhy gyfarwyddol o fynd i'r afael â materion yr oedd gan awdurdodau lleol brosesau priodol ac effeithiol ar waith ar eu cyfer eisoes. Roedd 88% o'r awdurdodau lleol a atebodd yn cytuno â'r farn hon.

Ffigur 10 – Safbwyntiau ar y darpariaethau diwygiedig ar gyfer ‘ceisiadau ar gyfer gwella’



3.77 Nododd Cyngor Bro Morgannwg: “*Mae’r Cyngorau eisoes yn trafod yn gyson ag amrywiaeth o gyrff a grwpiau ar ba welliannau y dylid eu gwneud ar draws yr holl rychwant o wasanaethau a gweithgareddau a gynigir gan y Cyngor. ... Mae mecanweithiau ymgysylltu, ymgynghori a chwyno’n bodoli eisoes, ac ni fyddai unrhyw ddiben mewn cyflwyno “ceisiadau ar gyfer gwella” ffurfiol ... yr unig beth y byddai’n ei wneud fyddai creu mwy o fiwrocratiaeth ac arafu’r broses benderfynu*”.

C.3.7: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o’n cynigion pellach sy’n ymwneud â mynediad i gyfarfodydd?

3.78 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno’n gryf ag egwyddor y darpariaethau a osodwyd yn y Bil Drafft. Ond codwyd nifer o bryderon, megis y gost a oedd yn gysylltiedig â gosod a gweinyddu’r seilwaith technolegol, galluogi’r oedrannus i gymryd rhan mewn democratiaeth ddigidol, a materion diogelu data a oedd yn ymwneud â chofnodi trafodion. Roedd sylwadau pellach yn ymwneud â’r materion posibl a fyddai’n codi yn sgil cofnodi a chyhoeddi bod pobl ifanc a phobl agored i niwed yn cymryd rhan yn nhrefodaethau’r cyngor neu sylwadau a oedd yn nodi na ddylai pob cyfarfod gael ei gofnodi a’i gyhoeddi, ond dylid ei annog cyn belled â bod hynny’n ymarferol.

C.3.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i wella cyfranogiad gan blant a phobl ifanc trwy’r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd?

3.79 Roedd y rhan fwyaf o’r rheini a ymatebodd yn cytuno y dylid annog y gwaith o wella cyfranogiad gan bobl iau a mynd ati i wneud hyn. Nododd llawer o’r

awdurdodau lleol a ymatebodd eu bod eisoes yn cynnal cyngorau ieuenctid a bod ganddynt ystod o fentrau gydag ysgolion i helpu i feithrin yr achos hwn ymhellach. Fodd bynnag, cwestiynodd rhai ymatebwyr pam mae angen deddfu ar y pwynt hwn gan fod awdurdodau lleol eisoes yn ymwneud yn weithredol â'r mater hwn a byddai deddfu ond yn creu mwy o waith i awdurdodau lleol, ysgolion a mudiadau elusennol a allai arafu'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

Dyma rai safbwyntiau eraill a fynegwyd:

- Amlygwyd y materion sy'n ymwneud â chofnodi a chyhoeddi cyfarfodydd, o ran y nod o gynyddu cyfranogiad pobl ifanc yn y cyngor.
- Dylid cynnwys gwleidyddiaeth yng nghwricwlwm ysgolion er mwyn gwella cyfranogiad.
- Byddai lleihau'r oedran pleidleisio i 16 yn gwneud i bobl ifanc deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar y cyngor a byddai'n amlygu anghenion y grwpiau.

Swyddogaethau Cyngorau Sir a'u Haelodau

C.4.1: A oes gennych sylwadau ar unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil Drafft?

3.80 Cyflwynodd ymatebwyr sylwadau ar ystod o faterion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 y Bil Drafft, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar y dyletswyddau perfformiad ar gyfer aelodau etholedig a gwaith y Pwyllgorau Safonau o fonitro ac adrodd. Y thema gyffredin oedd bod pobl yn poeni bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn or-gyfarwyddol ac, yn benodol, yn rhy drwm o ran adnoddau. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o fabwysiadu'r darpariaethau hyn yn gyffredinol fel mesur arweiniol effeithiol, a derbyniwyd hwy fel arf i wella swyddogaeth awdurdodau lleol a'u haelodau.

3.81 Yn gyffredinol, cefnogwyd y nod o geisio gwella'r ffordd yr oedd cyngorwyr yn gweithredu ar ran eu hetholwyr. Roedd yr ymatebwyr o blaid cyflwyno'r mesurau hyn i aelodau etholedig fel cam cadarnhaol tuag at egluro a moderneiddio'r trefniadau ar draws llywodraeth leol. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon ynghylch manylion penodol pob mesur, fel y gwelir isod.


- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r gofyniad i gynnal o leiaf pedair cymhorthfa y flwyddyn. Teimlwyd bod hyn yn rhoi mwy o bwysau ar aelodau a oedd eisoes yn ymgysylltu'n ddiwyd â'u hetholwyr mewn ffyrdd eraill. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai nifer y cymorthfeydd fod ar ddisgresiwn y cynghorydd, yn hytrach na bod yn gyfarwyddol.
- Roedd ymatebwyr o blaid rhoi mwy o bwyslais ar bresenoldeb, ond, nodwyd nad oedd unrhyw ddiffiniad o beth allai fod yn '*rheswm da*' dros beidio â mynychu, a holwyd am fwy o eglurhad ar y pwynt hwn.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid darparu rhaglen gytunedig o hyfforddiant gorfodol, ond nid oedd llawer o blaid pennu unrhyw gosbau am beidio â mynychu hyfforddiant.
- Cwestiynwyd y gofyniad i ateb gohebiaeth o fewn 14 diwrnod. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebion nad oedd y ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r gofyniad i ymateb i ohebiaeth ar lefelau eraill o'r llywodraeth. Credai rhai o'r ymatebwyr y dylai hwn gyd-fynd â chod ymarfer yr awdurdodau lleol.

3.82 Cwestiynodd rhai ymatebwyr a fyddai cydymffurfio â'r safonau perfformio yn golygu 'perfformiad da' yn awtomatig ym mhob achos, ac awgrymwyd felly y dylid eu defnyddio fel canllaw ar gyfer arfer gorau yn unig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai natur gyfarwyddol iawn y dyletswyddau perfformiad arfaethedig ar aelodau etholedig arwain o bosibl at gwynion gofidus, yn enwedig gan ystyried yr amwyster o ran y meini prawf i aelodau sydd â '*rheswm da*' dros beidio â chydymffurfio. Yn ogystal â hyn, amlygodd rhai ymatebion nad oedd gofyniad statudol o'r fath ar Aelodau'r Cynulliad.

3.83 Credai CLILC y dylai'r safonau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad cynghorydd gael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob lefel o lywodraeth gynrychioliadol. Nid oedd CLILC yn cytuno â'r dyletswyddau perfformio arfaethedig ar gyfer cynghorwyr, gan yr ymddengys eu bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth hen-ffasiwn o waith y cynghorydd lleol, nad yw'n cyd-fynd â'r cysyniad o weithredwyr cymunedol a amlinellir mewn rhannau arall o'r Bil Drafft.

Ffigur 11 – Nifer yr ymatebwyr a'u safbwyntiau ynglŷn â'r cynnig i ddeddfu ar gyfer Dyletswyddau Perfformiad Aelodau Etholedig.



3.84 Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr sylwadau ar swyddogaethau monitro ac adrodd y pwyllgorau safonau a'r cynigion yn y Bil Drafft i ddeddfu ar y broses o ymchwilio i achosion o dorri dyletswydd. Awgrymodd yr ymatebwyr fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhy gyfarwyddol ac y gallai gael adwaith andwyol ar lwyth gwaith swyddogion monitro. Roedd rhai ymatebwyr yn gweld potensial i'r ddeddfwriaeth gael ei defnyddio fel canllaw effeithiol, ac i'r pwyllgorau safonau gyfeirio at y gweithdrefnau Cod Ymddygiad wrth gynnal ymchwiliad i dorri dyletswydd. Daeth nifer o sylwadau i law ynghylch y ddarpariaeth benodol hon yn Rhan 4 y Bil Drafft ac mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn yr ymatebion i Gwestiwn 4.2 isod.

Roedd y canlynol ymhlith y safbwyntiau eraill a fynegwyd:

- Awgrymwyd bod dewisiadau amgen mwy priodol ar gyfer rhai o'r meysydd pryder posibl a restrwyd o fewn yr adrannau perthnasol. Er enghraifft, ar eu ffurf gyfredol, gallai'r anghysondebau ynghylch pryd y dylai swyddog monitro atgyfeirio i gadeirydd y pwyllgor safonau arwain at ddryswch a chymhwyso'r broses atgyfeirio mewn modd anghyson.

Awgrymwyd y byddai lliniaru'r rheol presenoldeb chwe mis⁴, yn ddull llawer cliriach, mwy gwrthrychol, a llai dwys o lawer o ran adnoddau, i ymdrin â'r mater na'r hyn a gynigwyd.

- Roedd croeso i weithredu manifestos i arweinwyr awdurdod lleol, er bod rhywfaint o bryder ynghylch pryd y dylai hynny ddigwydd.
- Cynnig bod maer yn uno'r tair swyddogaeth o fod yn arweinydd, cadeirydd a llywydd, gydag arbedion potensial.
- Roedd Un Llais Cymru o'r farn bod gan y sector swyddogaeth ddefnyddiol a phwysig i'w chwarae wrth roi craffu ar waith o fewn cyrff sector cyhoeddus eraill. Dylid cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau cymuned a thref priodol yng ngwneuthuriad y gweithrediadau hyn.

C.4.2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol neu ar swyddogaethau monitro ac adrodd y pwyllgor safonau?

3.85 Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cytuno â dyletswydd gyffredinol arweinwyr grŵp i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith aelodau a chydweithio â'r pwyllgor safonau. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion sy'n caniatáu i'r pwyllgorau safonau ystyried cwynion ynghylch cynghorwyr, gan gredu bod hwn yn gam diogelu priodol yn erbyn y camddefnydd o bŵer gwleidyddol. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon y gallai'r ddyletswydd ddeddfwriaethol arfaethedig brofi i fod yn rhy fiwrocrataidd.

3.86 Roedd rhai pobl a oedd yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol yn teimlo y gallai'r dyletswyddau arfaethedig a roddwyd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol a phwyllgorau safonau fod yn rhy gyfarwyddol, ac efallai na fyddai'n briodol cymhwyso'r cynigion hyn gan ddefnyddio un dull gweithredu sy'n gweddu i bawb. Roedd rhai o'r farn y byddai'n well defnyddio'r cynigion yn y Bil Drafft fel ffurf ar ganllaw arfer da, yn hytrach na mesur cyfarwyddol. Roedd ymatebwyr hefyd wedi awgrymu y byddai'r cynigion yn cynyddu atebolrwydd cynghorwyr ac arweinwyr grŵp, a gallai hyn arwain at leihau nifer yr unigolion sy'n barod i ddod ymlaen i gyflawni'r swyddogaethau hynny. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn sylweddoli y byddai'n golygu mwy o lwyth gwaith i'r swyddog monitro ac aelodau staff eraill yr awdurdodau lleol gynnal ymchwiliadau lleol.

3.87 Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai'r ddyletswydd arfaethedig ar y pwyllgor safonau i ystyried cwynion am gynghorwyr a oedd wedi torri eu dyletswyddau statudol newydd yn golygu y byddai gan y pwyllgor safonau fwy o swyddogaeth 'rheoli perfformiad', yn hytrach na'r ddyletswydd i fonitro i ba raddau y mae'r aelodau yn cadw at y Cod Ymddygiad. Roedd ymatebwyr yn cwestiynu ai'r pwyllgor safonau oedd y corff priodol ar gyfer rheoli perfformiad aelodau, ac yn credu mai'r etholwyr ddylai fod y prif gymroddedwyr ar berfformiad aelodau.


⁴ Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi y bydd aelod sy'n methu â bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gynfod o chwe mis olynol yn peidio â bod yn aelod, oni chymeradwywyd y rheswm gan yr awdurdod.

C.4.3: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn dirprwyo swyddogaethau?

3.88 Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion bod awdurdodau lleol yn dirprwyo swyddogaethau. Awgrymodd llawer o ymatebion y byddai darpariaeth ar gyfer hyn, wedi'i chynnwys yn y Bil, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau a chodi refeniw drwy ddulliau arloesol. Fodd bynnag, mynegodd llawer o ymatebwyr bod angen ymgynghoriad pellach a'r potensial i gynnwys rhywfaint o gyfarwyddyd i'r mesur.

3.89 Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r cynnig i ddirprwyo'r swyddogaethau yn teimlo y byddai'r awdurdodau lleol yn elwa ar gyflwyno modelau mwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau. Roedd llawer yn cytuno y dylid disodli'r darpariaethau presennol yn Neddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 gan system sy'n caniatáu dirprwyo gwasanaethau i drydydd parti. Roedd Un Llais Cymru yn cefnogi'r cynigion yn y Bil Drafft ac yn cydnabod y bwriad i greu pŵer dirprwyo newydd a fydd yn cael ei ymestyn i gynnwys y sector cyngor cymuned a thref.

Ffigur 12 - Nifer yr ymatebwyr a'u safbwyntiau ynglŷn â'r cynnig i ddirprwyo swyddogaethau i drydydd parti gan awdurdodau lleol.



3.90 Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynigion yn teimlo bod y ddarpariaeth i ddirprwyo swyddogaethau gan awdurdodau lleol yn drefniant ymarferol, yn amodol ar reolaethau a pharamedrau atebolrwydd cyhoeddus. Roedd CLILC, ymysg eraill, yn cefnogi'r cynigion i ddiwygio rheoliadau sy'n ymwneud â dirprwyo swyddogaethau, ac roeddent yn dymuno gweld mwy o ymgynghori'n digwydd ar y cynigion hyn wrth iddynt gael eu datblygu.

3.91 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn ystyried bod y trefniadau presennol yn annigonol. Roeddent o'r farn y byddai cyflwyno mesur i ganiatáu i awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau i drydydd parti yn arwain at ddarnio llywodraeth leol ymhellach a diffyg atebolrwydd democrataidd. Hefyd, mynegwyd pryder gan un ymatebydd ynghylch dirprwyo unrhyw benderfyniadau gan awdurdodau lleol i drydydd parti, os nad ydynt yn gwbl atebol i'r awdurdodau hynny a heb fod yn ddarostyngedig i egwyddorion Nolan.

Mynegwyd safbwyntiau eraill, gan gynnwys:

- Neilltuwyd llawer o swyddogaethau i'r awdurdodau lleol gan y deddfwyr hynny a gymeradwyodd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn y lle cyntaf ac ni fyddai'n ymddangos yn briodol i Weinidogion Cymru allu caniatáu dirprwyo swyddogaethau drwy reoliadau
- Mae'n fwy priodol bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn gwneud y penderfyniadau i ddirprwyo'r swyddogaethau er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol a strwythurau trydydd parti, sy'n amrywio ar draws Cymru.

C.4.4: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW) i ystyried canllawiau wrth adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr?

3.92 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno mai'r ffordd orau o adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr fyddai yn annibynnol ac yn dryloyw. Roedd ymatebwyr yn bendant eu barn y dylai'r IRPW barhau i weithredu'n annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol ac y dylai eu penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a'u hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai'r cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r IRPW wrth adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr yn tanseilio hygyrdd y Panel.


3.93 Roedd CLILC yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r IRPW, er bod rhai ymatebwyr o blaid hynny. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith nad oedd cynghorwyr cymuned yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol, a chafwyd cefnogaeth gan rai cynghorau cymuned a thref i ystyried rhoi taliad cydnabyddiaeth a lwfansau i gynghorwyr cymuned yn unol â chynghorwyr awdurdod lleol, er mwyn ymdrin â'r llwyth gwaith a'r cyfrifoldebau cynyddol.

3.94 Roedd Un Llais Cymru o'r farn y byddai'r cynigion yn rhoi pwysau ar IRPW, ac y byddai'r IRPW wedyn yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Weinidogion, ac felly byddai eu hannibyniaeth yn dod i ben. Yn ychwanegol at hyn, roedd Un Llais Cymru yn credu y dylai'r swyddogaethau cynyddol neu'r swyddogaethau a ddirprwywyd i gynghorau cymuned a thref, sy'n arwain at fwy o gyfrifoldebau, gael eu cydnabod yn ddigonol yn y gydnabyddiaeth ariannol.

C.4.5: A ydych chi'n cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fod yn fwy hyblyg?

3.95 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi y dylid gwella'r darpariaethau ar gyfer mynychu cyfarfodydd o bell, ac roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod hwn yn fater priodol i'w ystyried, yn enwedig wrth i dechnoleg yn y maes hwn wella. Roedd ymatebwyr o blaid cael mwy o amrywiaeth yn y dechnoleg yr oedd modd ei defnyddio, ac yn teimlo y byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn awdurdodau lleol mwy o faint, ac roedd hyn yn cael ei weld yn gam positif. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y dylai defnyddio dulliau cyfathrebu modern alluogi aelodau o gynghorau cymuned a thref i gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.

Ffigur 13 – Safbwyntiau yn ymwneud â'r cynnig i wneud mynychu cyfarfodydd o bell yn fwy hyblyg.



3.96 Er eu bod yn cefnogi'r cynigion, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallent gefnogi darpariaethau presenoldeb o bell mwy hyblyg. Mynegwyd pryderon ynghylch posibilrwydd camddefnyddio'r system. Roedd yn well gan lawer o'r ymatebwyr weld aelodau etholedig yn bresennol wrth gynrychioli barn ac anghenion eu hetholwyr, a dadleuwyd bod presenoldeb mewn cyfarfodydd a gallu gwrandao ar farn eraill yn bwysig gan ei fod yn cynrychioli barn gryfach.

3.97 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cwestiynu gallu technolegol awdurdodau lleol i fabwysiadu'n llawn y defnydd o arferion presenoldeb o bell. Roedd nifer yn pryderu am gysylltedd mewn ardaloedd gwledig yn benodol, cyflymder band eang, costau, y defnydd o'r Gymraeg fel iaith a ffeirir, a chyfrinachedd, ac roeddent yn teimlo y gallai


rhai penderfyniadau gael eu herio pe codai anawsterau technegol tra byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Roedd Cyngor Sir Powys yn credu y dylai'r defnydd o bresenoldeb o bell ddigwydd yn ôl disgrisiwn yr awdurdod.

C.4.6: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cysgodol benodi swyddogion canlyniadau dros dro?

3.98 Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebion yn cytuno â'r cynnig y dylid rhoi'r pŵer i awdurdodau cysgodol benodi swyddogion canlyniadau i wasanaethu hyd nes y byddai'n gyfleus, o ystyried yr amserlenni a bennwyd yn y Bil Drafft.

3.99 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, cododd gwestiynau ynghylch talu am ddyletswyddau swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiadau nad ydynt wedi'u datganoli, a fyddai wedyn yn cael eu hariannu gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen y dylid rhoi mwy o eglurder yn y Bil Drafft ynghylch pa rai o swyddogaethau'r swyddogion canlyniadau fyddai'n cael eu hystyried o fewn swyddogaeth y prif weithredwr, yn arbennig o safbwynt etholiadau nad ydynt wedi'u datganoli.

Ffigur 14 – Safbwyntiau ynghylch y cynnig y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cysgodol benodi swyddogion canlyniadau dros dro.



C.4.7: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am fuddioldeb rhoi'r pŵer i Gyngorau ddiswyddo'r prif weithredwr, y prif swyddog cyllid, y swyddog monitro a'r pennaeth gwasanaethau democrataidd trwy bleidlais?


3.100 Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn cytuno y gallai'r cynigion i gyflwyno'r pŵer i ddiswyddo'r prif weithredwr, y prif swyddog cyllid, y swyddog monitro neu bennaeth gwasanaethau democrataidd trwy bleidlais adael yr awdurdodau lleol yn agored i hawliadau diswyddo deongliadol neu annheg a fyddai'n gostus, ac roeddent o'r farn y dylai'r gweithdrefnau diswyddo barhau i fod yn unol â chyfraith cyflogaeth. Roedd llawer o'r farn bod y trefniadau presennol, sy'n parhau i ddefnyddio unigolyn annibynnol i gyfiawnhau'r penderfyniad i ddiswyddo uwch swyddog, yn gam diogelu pwysig o fewn y broses.

3.101 Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod perygl y gallai'r cynnig fod yn agored i ddylanwad gwleidyddol a chafwyd gwrthwynebiad cryf i'r ddarpariaeth a awgrymwyd. Roedd rhai yn cytuno y dylid ystyried diswyddo dim ond pan oedd ymchwiliad annibynnol yn cyfiawnhau'r diswyddo, ac y gallai system bleidleisio fod yn agored i gael ei chamddefnyddio. Hefyd, teimlai'r ymatebwyr bod angen amddiffyn swyddogion statudol sydd o bosibl yn teimlo na allant gefnogi penderfyniad o'r fath yn broffesiynol.

3.102 Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n fuddiol cyflwyno pŵer i ddiswyddo uwch swyddogion trwy bleidlais, ac y byddai'r gallu i wneud hynny yn helpu i sicrhau atebolrwydd. Tynnwyd sylw gan yr ymatebwyr y gallai'r broses Unigolyn Annibynnol Penodedig (DIP) gyfredol fod yn un hir a biwrocataidd ac y gallai olygu costau sylweddol. Cydnabuwyd y byddai angen gweithredu camau diogelu cyfreithiol llym er mwyn osgoi hawliadau posibl o ddiswyddo annheg.

3.103 Awgrymodd CLILC, ymysg eraill, bod angen dod o hyd i broses amgen. Awgrymodd y dylid cynnal adolygiad o'r broses statudol bresennol, gyda golwg ar gael dull amgen syml yn ei lle sy'n dal i gynnwys swyddogaeth i drydydd parti annibynnol. Wrth gefnogi'r isod, tynnodd y Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith fod y ddarpariaeth ar gyfer disodli yn Lloegr, er bod y ddarpariaeth DIP wedi'i diddymu, yn mynnu bod cynghorau yn ystyried cyngor a barn Panel Annibynnol cyn diswyddo swyddog sy'n cael ei amddiffyn yn statudol.

Ffigur 15 – Nifer yr ymatebwyr a'u barn ar y cynigion i roi pŵer i gynghorau ddiswyddo'r prif weithredwr, y prif swyddog cyllid, y swyddog monitro a'r pennaeth gwasanaethau democrataidd trwy bleidlais.



3.102 Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n fuddiol cyflwyno pŵer i ddiswyddo uwch swyddogion trwy bleidlais, ac y byddai'r gallu i wneud hynny yn helpu i sicrhau atebolrwydd. Tynnwyd sylw gan yr ymatebwyr y gallai'r broses Unigolyn Annibynnol Penodedig (DIP) gyfredol fod yn un hir a biwrocataidd ac y gallai olygu costau sylweddol. Cydnabuwyd y byddai angen gweithredu camau diogelu cyfreithiol llym er mwyn osgoi hawliadau posibl o ddiswyddo annheg.

3.103 Awgrymodd CLILC, ymysg eraill, bod angen dod o hyd i broses amgen. Awgrymodd y dylid cynnal adolygiad o'r broses statudol bresennol, gyda golwg ar gael dull amgen syml yn ei lle sy'n dal i gynnwys swyddogaeth i drydydd parti annibynnol. Wrth gefnogi'r isod, tynnodd y Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith fod y ddarpariaeth ar gyfer disodli yn Lloegr, er bod y ddarpariaeth DIP wedi'i diddymu, yn mynnu bod cynghorau yn ystyried cyngor a barn Panel Annibynnol cyn ddiswyddo swyddog sy'n cael ei amddiffyn yn statudol.


C.4.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i newid y fframwaith a ddefnyddi gan Gynghorau a'u Gweithrediaeth i benderfynu sut i ddyrannu eu swyddogaethau?

3.104 Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr fod y fframwaith presennol ar gyfer dyrannu swyddogaethau o fewn cynghorau wedi dyddio a bod angen mwy o hyblygrwydd er mwyn cydweddu orau ag arferion cyfredol. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r cynigion yn unioni'r broblem dyrannu

swyddogaethau a wynebwr gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, wrth i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) fethu â dal i fyny â newidiadau mewn deddfwriaeth arall.

3.105 Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr wedi croesawu darpariaeth fwy rhyddfrydig ac wedi cytuno bod y swyddogaethau presennol yn rhy gyfarwyddol. Croesawodd CLILC y cynnig i ddiwygio'r fframwaith. Roedd ei sylwadau'n nodi y bu fframwaith cymhleth o drefniadau gweithredol yn ymwneud â chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau penodol y cynghorau ers cyflwyno'r trefniadau gweithredol trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Cytunodd yr ymatebwyr y byddai'r newidiadau yn helpu i osgoi marweiddio o ran dyletswyddau, ac y byddai'n adlewyrchiad gwell o arferion cyfredol.

Ffigur 16 – Safbwynt am y cynigion i newid y fframwaith ar gyfer dyrannu swyddogaethau o fewn Cynghorau.



3.106 Teimlai ymatebwyr fod y penderfyniad i roi'r gallu i gynghorau a'u gweithrediaethau ddyrannu eu swyddogaethau yn caniatáu ar gyfer mwy o benderfyniad ar faterion o'r fath. Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen y dylai penderfyniadau polisi strategol barhau i fod yn gyfrifoldeb ar y cyngor llawn, gan awgrymu hefyd y dylai'r egwyddorion yn y Bil Drafft gynnwys pennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y cyngor o fewn ei gynllun corfforaethol.

3.107 Credai Cyngor Sir Dinbych y dylid cael cysondeb o ryw fath ymysg awdurdodau, yn benodol mewn meysydd lle y gallent fod yn dymuno cydweithredu


neu weithredu trefniadau pwyllgor ar y cyd wrth gyflawni eu swyddogaethau. Cefnogwyd y farn hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, nad oedd yn ystyried ei fod yn briodol i awdurdodau ddyrannu swyddogaethau mewn ffyrdd gwahanol. Ystyriodd y gallai hyn ddrysu'r cyhoedd, a mynd yn groes i'r nod o wneud llywodraeth leol yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

C.4.9: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion mewn perthynas â gwaredu a throsglwyddo asedau awdurdodau lleol?

3.108 Yn gyffredinol, teimlai ymatebwyr y byddai'r cynigion i ddeddfu ar waredu a throsglwyddo asedau awdurdodau lleol yn gam cadarnhaol, gan helpu i leihau'r rhwystrau presennol i'r broses o drosglwyddo asedau rhwng awdurdodau lleol a chyrff cymunedol. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod hwn yn fater cymhleth i'w ddatrys, er eu bod yn gwerthfawrogi bod angen mynd i'r afael ag ef ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn ceisio lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.

3.109 Cytunodd llawer o ymatebwyr fod y cynigion yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol mewn egwyddor, ond roeddent yn credu hefyd y dylai cynghorau tref a chymuned gael y cynnig i gaffael ased cyn iddo gael ei roi ar werth. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gellid ystyried hwyluso trosglwyddiadau islaw eu gwerth ar y farchnad mewn achosion o fuddion amlwg i'r gymuned. Fodd bynnag, tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gydbwyso'r budd o drosglwyddo ased cymunedol i wasanaethau lleol yn erbyn unrhyw oblygiadau ariannol sy'n codi yn sgil hynny.

Ffigur 17 – Nifer yr ymatebwyr a'u safbwyntiau am gynigion yn ymwneud â gwerthu a throsglwyddo asedau awdurdodau lleol.



3.110 Argymhellodd ymatebwyr y dylid creu cofrestr o asedau cymunedol, i gynnwys yr holl asedau sydd â'u gwerth dros drothwy penodol. Roedd CLILC yn cefnogi'n fras yr egwyddorion o ran trosglwyddo asedau cymunedol, a nododd fod llawer o awdurdodau eisoes yn cydweithio'n agos â chymunedau ar drosglwyddo neu reoli asedau cymunedol. Hefyd, amlygodd yr ymatebwyr yr angen i gael proses waredu glir er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw rwymedigaeth i'r awdurdod lleol ailfeddiannu ased, neu i'r cyngor tref neu gymuned werthu asedau am elw.

3.111 Codwyd ystod o bryderon gan ymatebwyr, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol a chyrrff cymunedol, y diffyg posibl o arbenigedd iechyd a diogelwch o fewn rhai cyrrff cymunedol, yr angen i feithrin gallu, cyngor busnes a chymorth datblygu er mwyn helpu cyrrff cymunedol i fabwysiadu asedau a gwasanaethau.

3.112 Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen mwy o eglurhad o'r derminoleg yn y Bil Drafft er mwyn lleihau unrhyw risg o wahaniaethau wrth ddehongli.

Dyma rai safbwyntiau eraill a fynegwyd:

- Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach (Cymru) yn gofidio bod y broses gyfredol o waredu asedau wedi rhoi gormod o flaenoriaeth i'r sector dielw ac nad yw wedi caniatáu i fusnesau bach lleol fabwysiadu asedau awdurdodau lleol.
- Er bod cefnogaeth fras i'r syniad y dylai cymunedau gael y 'cynnig cyntaf' pan fo asedau cymunedol yn cael eu rhoi ar werth, roedd rhywfaint o bryder hefyd o ran sut y byddai elusennau sy'n berchen ar asedau yn cael eu cynnwys o fewn y fframwaith hwn. Mae'n rhaid i asedau a ddeler gan elusennau, dan gyfraith elusennau, gael eu gwaredu am y gwerth gorau. Mae'n anodd i elusen werthu am lai na phris y farchnad oni bai y ceir buddion clir iawn i'r elusen o ran ei hamcanion elusennol.

Cynghorau Sir: Gwella Llywodraethu

C.5.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil Drafft?

3.113 Ymatebodd pedwar ar bymtheg o'r awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) i'r cwestiynau sy'n ymdrin â Rhan 5 o'r Bil Drafft. Cytunodd pawb fod llywodraethu da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad cyhoeddus. Fodd bynnag, gwnaethant rybuddio rhag gosod hyn yn y Bil Drafft, gan awgrymu y dylid rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u cyrrff cynrychioli i ddatblygu canllaw 'Arfer Gorau' neu fforwm, lle gellid rhannu syniadau a dulliau llywodraethu da.

3.114 Barn gref arall ymhlith ymatebwyr oedd y dylai gweithdrefnau adrodd a nodir yn y Bil Drafft gysylltu ac ymwneud â'r strwythurau adrodd amrywiol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dywedodd Cyngor Sir Fynwy: *"Mae'n aneglur felly pam mae angen dwy ddyletswydd statudol ar wahân i lunio, i*

bob pwrpas, yr un set o egwyddorion.” Dywedodd Cyngor Sir Caerffili: “Yn ogystal ag atgyfnerthu mai ein Dyletswydd Lles yw ein hegwyddor drefniadol, mae cyfle i symleiddio gwaith cynllunio ac adrodd ar berfformiad trwy ei gwneud yn glir y gall awdurdodau lleol dynnu’r rhain at ei gilydd mewn un fframwaith cynllunio ac adrodd.”

3.115 Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar aelodaeth y pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio. Dywedodd rhai ymatebwyr fod hyn yn rhy gyfarwyddol ac mai’r cyngor ei hun ddylai gwneud penderfyniadau am aelodaeth y pwyllgor, gan ddibynnu ar brofiad a swyddogaethau’r pwyllgorau. Canmolodd llawer o’r awdurdodau lleol waith yr aelod lleig ar y pwyllgor, a nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mai ei aelod lleig yw cadeirydd y pwyllgor; fodd bynnag, nodwyd bod gwaith y pwyllgor yn aml yn gymhleth a bod angen cynnal trafodaethau dan arweiniad swyddogion.

C.5.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i’w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â dyletswydd trefniadau llywodraethu?

3.116 Cytunodd wyth ar hugain o ymatebwyr (90% o’r rhai a gynigodd sylwadau) fod llywodraethu da yn hanfodol. Fodd bynnag, fel y dywed SOLACE: *“Dylid rhoi’r ddyletswydd ar gynghorau i hunanlywodraethu a hunanwella. Mae rheoliadau allanol gormodol ac ymyrraeth ac ymyriad gan lywodraeth a chyrff cenedlaethol, wedi cael effeithiau amheus, a gall fod yn rym gwanychol trwy danseilio hyder lleol i hunanwella. Mae’n rhaid cael cydbwysedd rhwng rheoleiddio ac atebolrwydd allanol, a hunanreoleiddio mewnol, lleol.”*

3.117 Canolbwyntiodd sylwadau ychwanegol ar ‘gysoni’ y strwythurau adrodd a osodir yn y Bil Drafft â rhai a sefydlwyd eisoes o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Dywedodd CLILC: *“Dylai’r cynigion llywodraethu da, cynllunio corfforaethol ac adrodd a amlinellir yn y Bil Drafft fod yn fwy cyson â’r dyletswyddau newydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r cynigion cynllunio corfforaethol penodol (a chynigion gosod amcanion eraill a nodir mewn manau eraill yn y Bil Drafft) yn dyblygu dyletswyddau Llesiant newydd ac felly bydd yn cynyddu biwrocratiaeth fewnol ac yn gwneud ychydig i gynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd neu atebolrwydd.”* Cwestiynodd nifer bach o ymatebwyr a oedd angen strwythurau ychwanegol oherwydd y byddai hyn yn arwain at ymrwymïadau adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol; gan greu fframwaith rheoleiddio cymhleth i weithredu ynddo.

C.5.3: A oes gennych unrhyw sylwadau am y dull gweithredu enghreifftiol tuag at asesiad gan gymheiriaid a nodir yn Atodiad A?

3.118 Cytunodd dau ar bymtheg o’r awdurdodau lleol, yn ogystal â CLILC a SOLACE, fod hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid yn hollbwysig er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau. Fodd bynnag, cytunai’r mwyafrif llethol ohonynt na ddylid deddfu ar hyn yn unol â’r cynnig yn y Bil Drafft. Dywedodd CLILC, ac roedd nifer o awdurdodau lleol yn cytuno, *“...Dylai adolygiadau gan gymheiriaid barhau i fod yn fodel dan arweiniad y sector, yn eiddo i’r sector ac wedi eu comisiynu gan y sector ac ni ddylid deddfu arno. Dyma’r model sy’n weithredol yn Lloegr ac yng Nghymru ar hyn o bryd, a hynny â rhywfaint o lwyddiant a hygyrdd. Nid yw CLILC yn cytuno felly y dylai fod gofynion deddfwriaethol am adolygiadau gan gymheiriaid.”*

Aeth CLILC yn ei blaen i ddweud: *“Ar hyn o bryd, mae adolygu gan gymheiriaid yn broses wella effeithiol y mae gan awdurdodau berchnogaeth arni ac sydd wedi ei dylunio a'i hamseru i ddiwallu anghenion yr awdurdodau. Mae'r model a gynigir yn troi'r broses yn swyddogaeth led-reoleiddiol sydd o bosibl yn dyblygu swyddogaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd ffurfioli'r broses yn effeithio ar ddynnameg a hyblygrwydd y broses adolygu a gallu'r awdurdod i fod yn agored a pherchen ar y broses.”* Yn ogystal â'r sylwadau a nodir uchod, rhoddodd CLILC enghraifft o sefyllfa pan fyddai'r broses adolygu gan gymheiriaid, fel y nodir yn y Bil Drafft, yn creu system eithafol gan arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd. Dywedodd *“...er enghraifft, byddai cynghorau dim ond yn cael dewis cymheiriaid o Gymru o awdurdod nad oedd yn gyfagos; wrth ystyried bod gan Gyngor Sir Powys, ffin â phob Cyngor Sir arfaethedig newydd, namyn un, yr unig gymheiriaid o Gymru y byddai'r cyngor yn cael ei ddefnyddio fyddai'r Cyngor Caerdydd-Bro Morgannwg newydd.”*

Mae safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Cwestiynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y model gan ddweud: *“...rwy'n credu bod y gronfa o gymheiriaid posibl sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn yr atodiad yn fach iawn ar hyn o bryd. Bydd angen gwneud cryn ymdrech i ddatblygu cronfa o'r fath ac i adeiladu capasiti yn y sector, yn ogystal â sicrhau ansawdd adolygwyr posibl.”*

C.5.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am rôl arfaethedig y pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio mewn perthynas ag ymateb yr awdurdod lleol i'r hunanasesiad, yr asesiad gan gymheiriaid, yr asesiad cyfun a'r adolygiad llywodraethu?

3.119 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr ar rôl y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio mewn cysylltiad â'i swyddogaethau i ddwyn yr awdurdod lleol i gyfrif. Fodd bynnag, cafwyd ymateb negyddol gan yr ymatebwyr yn erbyn natur gyfarwyddol dybiedig y pwyllgorau hyn, fel y'i nodir yn y Bil Drafft.

Mae safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dylai cynghorau sir ymrwymo i ddilyn unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor.
- Cwestiynwyd yr angen am y mesurau cyfarwyddol hyn, a allai dynnu oddi ar y gwaith pwysig y mae'r pwyllgor yn ei wneud.
- Dylai'r pwyllgorau gael eu sefydlu ym mhob corff cyhoeddus i wella hygyrchedd ac atebolrwydd i'r cyhoedd


C.5.5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynnig i wrthod pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol?

3.120 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr mai prin oedd yr angen am bwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol oherwydd y dulliau niferus eraill o graffu ar swyddogaethau a

bennwyd gan y Bil Drafft, yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.121 Awgrymodd nifer bach o awdurdodau lleol a CLILC, ddulliau a allai atgyfnerthu pwyllgorau amrywiol i wella'u cylch gwaith i graffu ar wasanaethau cyhoeddus yn eu meysydd, gan greu dull mwy hyblyg. Dywedodd CLILC: *“Er y gallai pwyllgorau craffu barhau i arfer y pŵer o dan adran 21 (2)(e) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ‘i lunio adroddiadau neu gynnig argymhellion i'r awdurdod neu weithredwyr ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu drigolion yr ardal honno’, byddai'n well gan CLILC ddiwygio adran 169 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu weithredu'r broses o graffu ar reoliadau personau dynodedig, i roi swyddogaeth graffu awdurdod lleol (ac felly cynrychiolwyr democratig lleol) gylch gwaith ehangach sy'n cynnwys craffu ar wasanaethau cyhoeddus yn eu hardaloedd.”*

Ffigur 18 – Sylwadau am wrthod pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol




C.5.6: Ai cyrff gwasanaethau cyhoeddus yw'r cyrff cywir i archwilio'r dewisiadau o ran polisi sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus lleol?

3.122 Cafwyd consensws cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr mai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw'r cyrff cywir i archwilio dewisiadau awdurdodau lleol o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol.

3.123 Serch hynny, anghytunodd deg o'r ymatebwyr y dylai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus asesu penderfyniadau polisi awdurdodau lleol. Dywedodd Cyngor Sir Powys: *“Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ran i'w chwarae. Fodd bynnag yr Awdurdod Lleol ddylai fod yn gyfrifol am graffu ar ddewisiadau polisi.”* Dywedodd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd: “Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a’u haelod sefydliadau unigol i ystyried a hysbysu (trwy asesiadau lles) y dewisiadau polisi sy’n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Fel y nodir uchod, mae angen atgyfnerthu gallu awdurdod lleol i graffu er mwyn rhoi cylch gwaith ehangach i aelodau etholedig lleol wrth archwilio dewisiadau polisi sy’n wynebu’r holl wasanaethau cyhoeddus (boed yn unigol neu ar y cyd) yn eu hardal.”

Ffigur 19 – Nifer yr ymatebwyr a’u barn o ran ai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw’r cyrff cywir i archwilio’r dewisiadau o ran polisi sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.




3.124 Roedd nifer bach o ymatebwyr o’r farn bod angen rhagor o wybodaeth arnynt am weithrediad y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd maent yn dal i fod yn endidau gweddol newydd ac nid yw eu canlyniadau yn hysbys.

C.5.7: Os felly, a fydd pwerau cyfreithiol ychwanegol o fudd iddynt?

3.125 Er gwaethaf yr ymatebion i’r cwestiwn uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn y byddai’r pwerau a roddwyd i’r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yn ddigonol iddynt i’w galluogi i archwilio’r dewisiadau polisi tebygol sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Ffigur 20 – Nifer yr ymatebwyr a'u safbwyntiau o ran a fydd pwerau cyfreithiol ychwanegol o fudd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?



3.126 Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod angen eglurhad ar weithrediad byrddau gwasanaethau cyhoeddus cyn gallu cynnig unrhyw sylwadau pellach. Roedd hyn yn sgil y cyfnod cymharol fyr ers bodolaeth y byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

C.5.8: Pa fesurau deddfwriaethol allai gael eu hystyried i ganiatáu i lywodraeth leol ymgymryd â rôl cydwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus?

3.127 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o eglurhad ar yr agwedd hon o'r ymgynghoriad cyn gallu cynnig sylwadau pellach. Nododd CLILC a sawl awdurdod lleol bryderon ynglŷn â chynnal gwasanaethau penodol mewn sefyllfa fasnachol oherwydd y byddai deddfwriaeth arall yn cyfyngu ar eu gweithrediad parhaus. Serch hynny, roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn bod digon o gamau diogelu cyfreithiol ar gael iddynt ar gyfer gweithredu cwmnïau masnachu lled braich ar hyn o bryd, ac nid oeddent o'r farn y byddai angen rhagor o fesurau deddfwriaethol.

3.128 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o'r farn bod cynghorau yn gallu cynnal gweithrediadau masnachol dan ddeddfwriaeth bresennol a oedd yn ddigon ar gyfer nodau dymunol Llywodraeth Cymru heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, y broblem fwyaf yn eu barn nhw o ran cydwasanaethau oedd yr, "...agweddau diwylliannol a diffyniaeth mewn sefydliadau sector cyhoeddus..." na fyddai unrhyw fesurau deddfwriaethol yn effeithio arnynt, ond yn hytrach gan grwpiau ymyrraeth a thrafod dan arweiniad y sector.

3.129 Mynegodd UNISON bryderon ynglŷn â chydwasanaethau rhwng cynghorau a sefydliadau eraill megis yr heddlu neu fyrddau iechyd, neu gwmnïau preifat nad ydynt wedi eu hethol yn ddemocrataidd, ac y gallai danseilio atebolrwydd a democratiaeth leol ymhellach.

Cynghorau Cymuned

C.6.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil Drafft?

3.130 Nododd yr ymatebwyr sylwadau ar amrywiaeth o faterion sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 6 o'r Bil Drafft, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar y meini prawf a'r prosesau sydd ynghlwm ag adolygu trefniadau cynghorau cymuned a chynghorau tref ledled Cymru. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod angen rhagor o eglurder o ran 'grwpio' cynghorau cymuned yn benodol, ac er bod llawer wedi nodi buddion uno cynghorau cymuned llai, nodwyd mewn rhai ymatebion y gallai hyn achosi cynrychiolaeth a chydlyniant cymunedol mwy diarffordd.

3.131 Yn ogystal ag argymhell yr angen am ragor o eglurder ynglŷn â'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth adolygu cynghorau cymuned a chynghorau tref, roedd sawl un o'r sylwadau yn nodi eu bod o'r farn ei bod yn bwysig asesu'r effaith y byddai adolygiad yn ei gael ar y trefniadau ariannu ar gyfer y sector. Awgrymodd llawer y byddai gan yr etholaeth leol farn gref ar y mater hwn ac y byddent yn debygol o wrthwynebu unrhyw newidiadau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Nododd yr ymatebwyr y byddai cynnydd yn y pwysau ar gynghorau cymuned a chynghorau tref i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian os yw'r strwythur a'r swyddogaethau'n newid. Cafwyd ystyriaethau ynglŷn â datblygu capasiti a gallu yn y sector.

3.132 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen i gynhyrchu adroddiadau blynyddol a chafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau baratoi a chyhoeddi adroddiadau sy'n galluogi pobl leol i ddeall yr hyn y mae'r cyngor wedi ei gyflawni.

Roedd y safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Un o'r tasgau pwysig cyntaf wrth gynnal adolygiad cymunedol cynhwysfawr yw pennu maint y cynghorau cymuned (neu gynghorau cyffredin). Mae hyn yn rhan ganolog o'r modd y gallai adolygiad o'r fath gael ei gynnal. Nid yw'r Bil Drafft yn sôn ryw lawer am faint cynghorau, ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau ymgynghori ar ei bolisi maint cyngor cymunedol arfaethedig (naill ai polisi Cymru gyfan neu wyth neu naw o rai unigol).
- Er bod gofynion i hysbysu ac anfon copiâu o'r argymhellion a weithredwyd at y Comisiwn Ffiniau, cynghorau cymuned, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, nid oes unrhyw sôn am anfon gorchmynion trefniadau etholiadol at yr Arolwg Ordnans.

C.6.2: A ddylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau (CFfDLC) gyflwyno'i adroddiadau drafft i awdurdodau cysgodol o fis Mai 2019 ymlaen?

3.133 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i'r CFfDLC anfon ei adroddiadau drafft i Awdurdodau Cysgodol o fis Mai 2019 ymlaen. Roedd yr ymatebion a gyflwynwyd ynglŷn â'r Bil Drafft yn derbyn yn


gyffredinol y byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i'r CFfDLC anfon ei argymhellion drafft yn gynt a chaniatáu rhagor o amser i ystyried y cynigion yn brydlon. Ategodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y farn hon yn ei hymateb i'r ymgynghoriad a chydabu ymatebwyr eraill hefyd sut y byddai sicrhau bod adroddiadau drafft ar gael yn gynt yn helpu i leihau unrhyw gyfnod o ansicrwydd o ganlyniad i ddiwygio llywodraeth leol.

3.134 Roedd rhai ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig i adrodd yn 2019 yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod yr CFfDLC yn cael y cyfnod amser a'r adnoddau gofynnol fel bod y cynigion yn cael eu hystyried yn llawn. Roedd Un Llais Cymru yn erbyn gosod amserlen gyfyngedig ar gyfer cwblhau ymarfer critigol ac awgrymodd y byddai amserlen sy'n pennu mis Ebrill 2020 yn fwy realistig, o ystyried nifer y cynghorau cymuned a chynghorau tref ledled Cymru.

3.135 Un thema gyffredin oedd pwysigrwydd sicrhau bod gan yr CFfDLC yr adnoddau i ddefnyddio dull teg ac ystyriol o ymdrin â'r dasg sylweddol hon yn enwedig os bydd cynghorau llai yn cael eu huno yn gynghorau mwy o faint. Hefyd, byddai'n bwysig caniatáu digon o amser i'r CFfDLC gynnal asesiad trwyadl i gyflawni'r canlyniad cywir y tro cyntaf.

3.136 Roedd ymateb yr CFfDLC yn cydnabod y byddai'r adolygiad o'r cynghorau cymuned yn drwm o ran adnoddau ac roedd yn dymuno gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r adnoddau gofynnol er mwyn cynnal y rhaglen waith o fewn yr amserlenni gofynnol. Cadarnhaodd yr CFfDLC y byddai'n well ganddo gyflwyno adroddiadau drafft o fis Mai 2019, gan y byddai yn caniatáu i'r Comisiwn amserlennu a chynnal yr adolygiadau mewn modd trefnus.

Ffigur 21 – Y sylwadau o ran a ddylai fod yn ofynnol i'r CFfDLC gyflwyno ei adroddiadau drafft i awdurdodau cysgodol.



Roedd y safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:


- Mae SLCC yn cefnogi y dylid addasu adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i atal cymuned rhag gwneud cais am gyfnod o amser ar ôl i'r gorchmynion gweithredu arfaethedig ddod i rym. Byddai hyn yn caniatáu i gynghorau cymuned gael eu sefydlu heb y bygythiad o gael eu diddymu ar unwaith o ganlyniad i anfodlonrwydd y cyhoedd ag unrhyw elfen o raglen adolygu'r cyngor cymuned.
- Mae aelodau Un Llais Cymru yn dymuno i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfarwyddyd i'r CFfDLC i roi ystyriaeth briodol i ddiogelu'r Gymraeg wrth wneud ei argymhellion.

C.6.3: A ddylai'r cynghorau sir newydd roi ar waith argymhellion yr CFfDLC neu a ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb i'r CFfDLC ei hun?

3.137 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol â'r cynnig i ddiwygio'r darpariaethau yn y Bil Drafft er mwyn caniatáu i'r CFfDLC weithredu ei argymhellion ei hun trwy Orchymyn. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y byddai'n ofynnol i'r cynigion terfynol a gynhyrchwyd gan yr CFfDLC ystyried adborth a barn cynghorau a chymunedau lleol wrth lunio adroddiadau ar eu cynigion. Ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn gyson, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'n briodol i'r CFfDLC lunio'r Gorchmynion i weithredu'r argymhellion hyn.

3.138 Gwnaeth nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fynegi y byddai'n well ganddynt pe byddai awdurdodau lleol yn gweithredu argymhellion yr CFfDLC. Fodd bynnag, nododd rhai y byddai hyn ond yn briodol ar yr amod bod digon o adnodd staff i wneud hynny. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ystyried gwybodaeth leol wrth adolygu'r cymunedau ac roedd rhai cynghorau o'r farn y byddai ganddynt wybodaeth well am eu cymunedau, gan awgrymu y dylai fod proses ymgynghori gadarn a chyfraniad gwleidyddol wrth lunio argymhellion. I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n well rhoi'r cyfrifoldeb am weithredu argymhellion i'r CFfDLC er mwyn osgoi'r posibilrwydd y byddai Gweinidogion neu awdurdodau lleol yn ceisio defnyddio'r pŵer hwn i ddylanwadu'n amhriodol ar ganlyniadau adolygiadau o'r fath.

Ffigur 22 – Nifer yr ymatebwyr a'u dewis o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am weithredu argymhellion yr CFfDLC.



3.139 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai dull cynhwysol o ffurfio'r cynigion yn fuddiol, er mwyn sicrhau bod yr CFfDLC yn ystyried swm priodol o adborth a gwybodaeth leol.

Roedd y safbwyntiau eraill a fynegwyd yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apeliadau yn erbyn canlyniad adolygiadau ffiniau a gynhelir gan yr CFfDLC.


C.6.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol ar gyfer cynghorwyr cymuned?

3.140 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o ddarparu hyfforddiant i gynghorwyr cymuned ac roeddent yn ystyried bod hyn o fudd i'r cyngor a'i gynghorwyr, yn enwedig o ran y meysydd pwnc craidd sy'n ofynnol ar gyfer eu swyddogaethau. Roedd rhai o'r meysydd y nodwyd eu bod yn rhai craidd yn cynnwys hyfforddiant sefydlu sylfaenol, cod ymddygiad, cyllid a chynllunio. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiad cryf i gynghorau cymuned yn gyfrifol am benderfynu pa hyfforddiant fyddai'n orfodol.

3.141 Amlygodd rhai ymatebwyr bod swyddogaeth cynghorydd cymuned yn un gwirfoddol, ac felly ni ddylai hyfforddiant nad oedd yn allweddol fod yn orfodol. Gan nad oedd yn ofynnol i gynrychiolwyr etholedig gael lefel addysg benodedig wrth ymgymryd â'r rôl, awgrymwyd y gallai ymrwymadau hyfforddi gorfodol atal rhai pobl rhag sefyll etholiad ac atal rhai rhannau o'r gymuned rhag cymryd rhan yn y cyngor. Awgrymwyd hefyd y dylai disgwyliaid cynghorau o ran hyfforddiant amrywio gan ddibynnu ar eu maint.

3.142 O ran monitro hyfforddiant aelodau, roedd nifer fawr o'r ymatebion yn mynegi pryderon ynglŷn â rhoi'r cyfrifoldeb hwn i glerc y cyngor cymuned. Roedd llawer o'r farn y byddai'r dewis hwn yn rhoi straen diangen, yn y pen draw, ar y berthynas dda rhwng y clerc a'r cyngor, yn ogystal ag ychwanegu gwaith diangen at lwyth gwaith sydd eisoes yn un prysur. Roedd un ymatebydd yn argymhell mai'r pwyllgor safonau fyddai'r corff priodol i ymchwilio i gosbau priodol a'u cyflwyno, er mwyn sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y cyngor, y cynghorwyr a'r clerc dan straen.

Ffigur 23 – Sylwadau ar y cynigion ynglŷn â hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr cymuned.



3.143 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i sicrhau bod pob aelod yn gallu derbyn yr un safon uchel o hyfforddiant. Dywedodd llawer y gellid cyflawni hyn trwy ddefnyddio corff troswaol, fel Un Llais Cymru, i ddarparu a chymhwyso achrediad ar gyfer hyfforddiant yn y sector cynghorau cymuned.

3.144 Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar y cyfrifoldebau cynyddol fydd yn cael eu rhoi i gynghorau cymuned o ganlyniad i'r cynigion ac roeddent o'r farn bod angen i gynghorwyr cymuned gael yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau newydd. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ystyried penderfynu ar gyllid ac y dylid rhoi cyllid priodol i gynghorau cymuned wneud hyn. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ddarpariaeth hyfforddiant fod yn gysylltiedig â'r adolygiad o swyddogaethau Un Llais Cymru.

C.6.5: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ymestyn tymor cynghorwyr cymuned sy'n cael eu hethol yn 2017 i chwe blynedd?

3.145 Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o opsiynau ar gyfer amserlen etholiadau'r cynghorwyr cymuned ar ôl 2017, ond cydnabuwyd bod angen mynd i'r afael â hyn yn effeithiol mewn cyfnod o ddiwygio sylweddol. Cafwyd digonedd o gefnogaeth am y

cynnig i gael tymor chwe blynedd untro o 2017 ymlaen ac roedd llawer yn credu bod hwn yn ddull gweithio pragmatig i'w ddilyn yn ystod y cyfnod hwn o newidiadau.


3.146 Awgrymodd y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig ar gyfer tymor chwe blynedd, er ei fod yn gyfnod hir i fod mewn swydd, y byddai'n hanfodol sicrhau parhad a hwyluso cyfnod pontio llyfn. Cydnabu'r ymatebwyr mai diben y cynnig hwn oedd darparu ar gyfer set unigryw o amgylchiadau a byddai'n cael ei weithredu'n effeithiol, yn ogystal â bod yr opsiwn mwyaf cost effeithiol.

3.147 Y prif bryder o fewn yr ymatebion oedd gan y rheini a oedd yn credu bod un tymor chwe blynedd, er ei fod yn cael ei gynnig fel opsiwn untro, yn gyfnod rhy hir. Nid oedd yr ymatebwyr yn credu bod y cynnig hwn yn fuddiol i ddemocratiaeth leol iach ac, o ganlyniad, gallai beri i rai deimlo'n annifyr ynghylch sefyll etholiad oherwydd hyd yr ymroddiad yr oedd ei angen. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr hefyd yr anawsterau o reoli "aelodau anodd neu lonydd" posibl dros gyfnod hirach.

3.148 Er i fwyafrif yr ymatebwyr nodi y byddai'n well ganddynt gefnogi'r opsiwn am un tymor chwe blynedd, gyda thymhorau pum mlynedd i ddilyn wedi hynny, cafwyd llawer o opsiynau eraill. Yr argymhellid arall mwyaf poblogaidd oedd mabwysiadu tymhorau tair blynedd ddilynol o 2017 ymlaen a pharhau gyda thymhorau pum mlynedd o 2023 ymlaen. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y byddai dau dymor o dair blynedd yn fwy democrataidd ar gyfer eu hetholwyr, ac yn fwy deniadol ar gyfer denu ymgeiswyr. Credai un o'r ymatebwyr y byddai hyn hefyd yn helpu i adeiladu'r meini prawf ar gyfer cael dwy ran o dair yn aelodau etholedig i gael achrediad cymhwysedd. Fodd bynnag, roedd yn well gan eraill yr opsiwn o gael un tymor chwe blynedd oherwydd y costau o gynnal dau etholiad yn ystod yr un cyfnod.

3.149 Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn y newid i'r amserlen etholiadol bresennol ac yn credu y gallai unrhyw gynnig i ddiwygio hyd y tymor mewn unrhyw fodd achosi problemau. Teimlai nifer o'r rheini a oedd yn erbyn newid nad oedd angen i'r tymhorau ar gyfer etholiadau cynghorwyr cymuned a chynghorwyr sir gyd-fynd â dyddiadau etholiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o reidrwydd wrth fynd ymlaen, felly dylid cadw'r amserlen tymor 4 blynedd bresennol.

Ffigur 24 – Nifer yr ymatebwyr a'u dewisiadau ar gyfer tymor swydd cynghorydd cymuned, o 2017 ymlaen



C.6.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i gynghorau cymuned ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion hyfforddi eu haelodau a'u gweithwyr eu hunain?

3.150 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai'n fuddiol i'r cynghorwyr a'r gweithwyr ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion hyfforddi eu haelodau a'u gweithwyr eu hunain. Roedd mwyafrif yr ymatebion o blaid y cynigion i gynghorau cymuned bennu eu hanghenion hyfforddi eu hunain, ond gwnaeth llawer gwestiynu'r angen am hyfforddiant gorfodol, gan gredu mai'r cynghorau cymuned oedd yn y sefyllfa orau i ystyried eu hanghenion hyfforddi. Credai'r ymatebwyr hynny y dylai'r ddyletswydd gael ei gadael i'r cynghorau cymuned unigol ei hystyried ac y dylent gytuno ar unrhyw hyfforddiant nad oedd yn orfodol gyda'u haelodau, gan gynnwys gofyniad i adolygu'n rheolaidd a dyrannu cyllideb ddigonol. Fodd bynnag, gwnaeth yr ymatebion amlygu'r straen posibl ar yr adnoddau y byddai eu hangen i gynllunio ar gyfer hyfforddiant, yn ogystal ag ysgrifennu adroddiadau blynyddol a rheoli perfformiad, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gynghorau cymuned lai o faint yn benodol. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr opsiynau eraill amrywiol ar gyfer pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynllunio anghenion hyfforddi.

3.151 Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld cynghorau sir yn cynnwys anghenion hyfforddi cynghorau cymuned o fewn eu rhaglenni hyfforddi nhw, gan awgrymu mai nhw fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu hyfforddiant cost effeithiol

ac addas i gynghorwyr cymuned ar bynciau sydd â dyletswydd neu swyddogaeth a rennir. Roedd un ymatebydd yn credu y byddai cynghorau cymuned llai o faint yn croesawu arweiniad ar hyfforddiant gan gynghorau sir, cyn belled â bod fframwaith cenedlaethol yn bodoli i ganiatáu cynghorwyr i ychwanegu at eu sgiliau.

3.152 Nododd llawer o aelodau Un Llais Cymru y byddent yn ochelgar o gael cynghorwyr sir i arwain eu hanghenion hyfforddi yn dilyn ad-drefnu posibl a chytunwyd y byddai'n briodol cael trefn hyfforddi sydd wedi'i rheoleiddio gan eu hadran eu hunain. Amlygodd un ymateb fod Un Llais Cymru eisoes yn darparu rhaglen hyfforddi flynyddol yr oedd pob aelod cyngor yn ei dderbyn i'w hystyried. Roedd Un Llais Cymru o'r farn ei fod mewn sefyllfa berffaith i gefnogi a monitro datblygiadau o'r fath gyda chymorth priodol gan Lywodraeth Cymru. Er bod rhai o'r ymatebion yn dangos eu bod o blaid yr argymhelliad y dylai corff cyfunol o fewn y sector oruchwylio gofynion hyfforddi, nid oedd un ymatebydd yn cytuno â rhoi monopoli ar ddarparu neu bennu anghenion hyfforddi.

3.153 Nododd rhai ymatebwyr fod angen mwy o eglurhad ar ba swyddogaethau y byddai'r cynghorau cymuned a thref yn eu cyflawni. Teimlwyd nad oedd yn bosibl rhoi sylwadau ar anghenion hyfforddi hyd oni fyddai gwaith y cynghorau hyn yn cael ei ddiffinio. O ganlyniad, dylai'r pŵer i ragnodi hyfforddiant fod yn bŵer wrth gefn ac ni ddylid ei weithredu ar unwaith.

C.6.7: A oes gennych unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â gosod amcanion ar gyfer clerc cyngor cymuned?

3.154 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer clercod cynghorau cymuned ac yn credu bod gosod amcanion yn arfer cyflogi da. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o'r ymatebion bod angen i hyn fod yn gymesurol â maint y cyngor. Yn gyffredinol, credwyd y dylid annog cynghorau llai o faint i osod amcanion ar gyfer eu clercod, ond cydnabuwyd y byddai cynigion hyfforddi, adroddiadau blynyddol a gwaith rheoli perfformiad yn straen ar adnoddau cynghorau cymuned llai o faint.


3.155 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r syniad o gael y cadeirydd i osod amcanion i'r clercod a chredwyd na fyddai'n ddemocrataidd rhoi holl gyfrifoldeb y dasg hon ar ysgwyddau un unigolyn. Cwestiynodd ymatebwyr pam ddylai'r gwaith o osod amcanion ddibynnu ar un unigolyn, yn enwedig unigolyn a allai fod ag ychydig iawn o wybodaeth am waith y clerc.

3.156 Un cynnig cyffredin o fewn yr ymatebion oedd yr argymhelliad y dylai'r amcanion gael eu hadolygu a'u gosod gan y cyngor cyfan, mewn ymgynghoriad â'r clerc ac unrhyw bwyllgor staff. Credai rhai ymatebwyr mai hon oedd y broses briodol a phwysleisiwyd nad oedd gan y cadeirydd unrhyw gyfrifoldebau uwch o'i gymharu ag aelodau eraill y cyngor gan fod swydd y Cadeirydd yn un anrhydeddus.

3.157 Argymhelliad arall o fewn yr ymatebion oedd sefydlu pwyllgor o'r cyngor i fynd i'r afael â'r broses o osod amcanion a monitro perfformiad clercod. Credai'r ymatebwyr hyn na ddylai gosod yr amcanion ar gyfer y clerc fod yn waith i aelod

unigol, gan gynnwys y cadeirydd, ond yn hytrach, yn waith i bwyllgor neu is-bwyllgor priodol.

Ffigur 25 – Nifer yr ymatebwyr a'u hargymhellion ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am osod amcanion y clerc.



3.158 O ran cynghorau cymuned llai o faint, pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr y straen ychwanegol y byddai rheoli perfformiad clercod yn ei gael ar eu hadnoddau. Felly, roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r cyngor ysgwyddo'r ddyletswydd hon a gwneud trefniadau priodol, gan ystyried ei faint. Esboniodd Cyngor Cymuned Tregolwyn sut yr oedd yn darparu disgrifiad swydd llawn a chlr a bod ganddo glerc profiadol eisoes am gyngor bach iawn. Credai, felly, y byddai'n briodol pe bai'r ddyletswydd hon ond yn berthnasol i gynghorau mwy o faint. Yn ogystal â hyn, credai un ymatebydd pe bai cynghorau cymuned yn mynd yn tyfu o ran maint, y byddai'n briodol ac yn unol ag arfer da i bob clerc gael amcanion perfformiad.


Dyma rai safbwyntiau eraill a fynegwyd:

- Byddai'n fuddiol cael cynllun arfarnu safonedig ar gyfer pob cyngor cymuned a thref. Gallai Un Llais Cymru ddatblygu hyn.
- Pwy fyddai'n cynorthwyo'r Cadeirydd i reoli perfformiad y clerc wrth osod yr amcanion blyneddol? Gellid ystyried cael arweiniad priodol gan gorff fel Swyddfa Archwilio Cymru, gyda'r fantais o gael sylwadau da neu fel arall, yn yr archwiliad blyneddol.

- Mae'r berthynas rhwng y cadeirydd a'r clerc yn hanfodol i weithrediad llyfn y cyngor, felly ni ddylid bygwth hyn gan ddull gweithio personol y cadeirydd o ran lefelau perfformiad.
- Dylai hyn fod wedi'i gynnwys eisoes yn y contract telerau cyflogaeth ac ni ddylai fod angen monitro ychwanegol.

C.6.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ddiddymu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol ac yn hytrach ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu system e-ddeisebau?

Ffigur 26 - Nifer yr ymatebwyr a'u sylwadau ar gynigion i ddiddymu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol a rhoi system e-ddeisebau ar waith



3.159 Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'r ddarpariaeth i roi system o e-ddeisebau ar waith. Croesawodd yr ymatebwyr y cynnig fel modd o leihau'r straen a'r costau ar gynghorau sir, yn ogystal â chreu mecanwaith mwy hygyrch i gymunedau lleisio'u barn. Roedd yn well gan lawer o'r rheini a oedd o blaid ddefnyddio e-ddeisebau gan eu bod yn credu bod perygl i bleidleisiau cymunedol gael eu camddechongli'n rhy aml fel refferenda gorfodol i gynghorwyr, ac roedd hyn yn achosi tensiwn ar brydiau rhwng etholwyr a'u cynrychiolwyr.

3.160 Y brif anfantais a nodwyd yn yr ymatebion oedd bod angen gwell gwasanaeth band eang ledled Cymru. Mynegwyd pryder hefyd gan gyfran fawr o'r rheini a oedd o blaid y cynnig i gyflwyno e-ddeisebau y byddai'n cyfyngu ar allu rhai rhannau o'r gymdeithas i gymryd rhan, ac awgrymwyd y byddai mynd ati'n raddol i gyflwyno e-ddeisebau yn ddull gweithio mwy ymarferol. Credai Cyngor Tref y Trallwng, a oedd o blaid hyn, ei fod yn rhy fuan gweithredu'r cynigion i ddiddymu pleidleisiau cymunedol ac awgrymwyd y dylai'r ddeddfwriaeth ganiatáu e-ddeisebau a phleidleisiau ar bapur am gyfnod o bum mlynedd.

3.161 Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn y cynigion ac yn credu y dylai'r ddeddfwriaeth bresennol aros fel y mae. Roeddent yn credu y gellid camddefnyddio e-ddeisebau a'u bod wedi'u hanelu'n ormodol at y rheini â mynediad i'r rhyngwrwyd gan arwain at gau allan rhai aelodau o'r gymuned.

Materion y Gweithlu

C.7.1: A oes gennych chi sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 7 y Bil Drafft?

3.162 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi rhywfaint o leoliaeth o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ac yn teimlo y byddai cyflwyno dylanwad wedi'i ganoli dros faterion gweithlu gan Weinidogion Cymru yn tanseilio atebolrwydd democrataidd. Roedd y sylwadau yn cyfeirio at ddarpariaethau yn Rhan 7 y Bil Drafft yn awgrymu na fyddai un dull cyffredinol i bawb yn briodol a mynegwyd pryderon ynghylch pŵer Gweinidogaethol dros reolaeth awdurdodau lleol.

3.163 Roedd y mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan y Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol a CLILC bod y diffiniad o weithlu, ynghyd â'r gallu i ddosbarthu canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol, yn rhy bellgyrhaeddol ac mae'n bosibl y byddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a allai effeithio ar weithlu cyfan awdurdodau lleol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r farn mai cynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd oedd yn y sefyllfa orau i bennu cyfeiriad eu gweithlu, er mwyn darparu'r gwasanaethau mwyaf cost effeithiol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod cyfeiriadau diweddar at benodi gweithwyr a chyflogau uwch wedi cynyddu'r fiwrocratiaeth, a hynny yn ddiangen weithiau. Dadleuodd y Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol bod pennu maint a chyfansoddiad y gweithlu yn cysylltu'n uniongyrchol â dyraniad y gyllideb a blaenoriaethau'r awdurdod lleol penodol. Roedd hon yn swyddogaeth sylfaenol y proffesiwn Adnoddau Dynol o ran cefnogi anghenion busnes lleol pob awdurdod ac, o ystyried natur amrywiol gwasanaethau llywodraeth leol, roedd angen i hyn fod ar lefel wasanaeth unigol yn aml er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol. Mynegwyd pryder gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen oherwydd y diffyg paramedrau a oedd wedi'u cynnwys yn y pŵer, a oedd yn nodi nad oedd angen i gyngor sir fod yn methu cyn y gallai Gweinidogion ddefnyddio'r pwerau hyn.

C.7.2: A oes gennych chi unrhyw farn am ba un a fyddai'n parhau i fod yn ddymunol i sefydlu comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus statudol pe byddai hwnnw'n fwy cyfyngedig na chomisiwn anstatudol o ran y materion y gallai gyflwyno canllawiau ar eu cyfer?

3.164 Yn gyffredinol, croesawyd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (CSGC) gan ymatebwyr, fel cyfrwng i gynorthwyo â materion gweithlu. Fodd bynnag, awgrymodd llawer na fyddai angen symud y CSGC i safle statudol pe na byddai'r diwygiadau arfaethedig i lywodraeth leol yn cael eu cynnal.

3.165 Dangosodd mwyafrif yr ymatebion awydd i'r CSGC gael ei gysylltu'n benodol â'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol a nodwyd y buddion o gael y CSGC i gefnogi'r gwaith o sefydlu cynghorau newydd yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai gosod y CSGC ar sail statudol yn amharu ar ei effeithiolrwydd, nododd yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld y CSGC yn parhau i weithredu ar sail anstatudol. Awgrymodd un ymatebwr nad oedd angen sefydlu comisiwn staff statudol gan mai'r awdurdod perthnasol fyddai'n parhau i fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau terfynol ar faterion staffio. Felly, yr unig beth y byddai'n ofynnol i'r awdurdod ei wneud ar unrhyw adeg fyddai "rhoi ystyriaeth" i gyngor neu arweiniad y CSGC.

3.166 Gofynnodd CLILC, ymhlith eraill, hefyd am eglurhad a chytundeb wedi'i adnewyddu ar barhad CSGC anstatudol, pe na byddai llywodraeth leol yn cael ei hailstrwythuro.


3.167 Ar y cyfan, roedd y cynghorau cymuned o blaid sefydlu CSGC gyda chynrychiolaeth o'r sector cynghorau lleol. Roedd Un Llais Cymru yn cytuno â'r farn hon o ystyried y goblygiadau posibl ar wasanaethau ac asedau cymunedol cynghorau cymuned a thref yn dilyn unrhyw ddiwygiad o lywodraeth leol. Teimlai Un Llais Cymru eu bod nhw, ynghyd â chyrff eraill o'r sector, fel Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, mewn sefyllfa dda i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob mater sy'n ymwneud â'r gweithlu yn cael ei ystyried yn briodol.

3.168 Roedd y rhai a oedd yn erbyn sefydlu'r CSGC yn teimlo y byddai'r sefydliad statudol yn ychwanegu lefel arall o fiwrocratiaeth. Credai un ymatebwr, cyn belled â bod cynghorau sir yn gweithio o fewn y gyfraith, y dylai penderfyniadau staffio gael eu gwneud gan y cynghorau hynny, sy'n deall orau anghenion eu cymunedau a'u hanghenion sefydliadol.

Mynegwyd safbwyntiau eraill, gan gynnwys:

- Byddai'n bwysig sicrhau bod eglurdeb rhwng swyddogaeth y CSGC statudol arfaethedig a swydd dros dro yr IRPW o ran cyflogau prif swyddogion yr awdurdodau lleol presennol.

figur 27 – Safbwyntiau ar ba un a fyddai'n ddymunol sefydlu CSGC statudol



Cyffredinol ac Atodlenni

C.8.1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 8 y Bil Drafft?

3.169 Er gwaethaf y sylwadau uchod, nododd ymatebwyr bod yr amserlenni amrywiol i'w weld yn briodol. Fodd bynnag, cyfeiriodd cyrff amrywiol at rai sylwadau penodol.

3.170 Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygu Cymru y dylid ond caniatáu gallu Gweinidogion Cymru i reoleiddio amserlenni a chwmpas archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, fel y cynigir yn y Bil Drafft ar hyn o bryd, ar ôl i hyn gael ei benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru bod gallu'r Bil Drafft i ganiatáu i Weinidogion Cymru newid ardaloedd yr awdurdod tân ac achub heb gynnal ymchwiliad cyhoeddus yn groes i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

Cwestiynau Ychwanegol

C.9.1: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y bydd angen eu gwneud?

3.171 Yn gyffredinol, nid oedd cyrff cynrychiadol yr awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned yn gwybod am unrhyw ddeddfwriaeth bresennol y byddai angen ei diwygio o ganlyniad i'r Bil Drafft.

C.9.2: Rhowch adborth a fydd yn ddefnyddiol yn eich barn chi mewn perthynas â'r dogfennau ategol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil Drafft h.y. Memorandwm Esboniadol Drafft (gan gynnwys yr Asesiad Rheoleiddiol o Effaith) ac Asesiadau o Effaith penodol.

3.172 Yn gyffredinol, gwerthfawrogwyd y dogfennau a ddarparwyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid creu "...crynodebau gweithredol..." a fyddai'n galluogi dealltwriaeth gyflymach o brif bwyntiau'r ymgynghoriad, ac awgrymwyd y gallai hyn annog mwy o ymatebion.

3.173 Dim ond cyfran fechan o ymatebwyr a gyfeiriodd mewn rhyw fodd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at yr Asesiad Rheoleiddiol o Effaith neu at gostau a buddion y Bil Drafft. Awgrymodd y mwyafrif nad oedd achos wedi'i gyflwyno, neu heb ei gyflwyno'n glir, ar gyfer lleihau nifer yr awdurdodau lleol, a chredwyd nad oedd digon o ddata ansoddol a meintiol. Derbyniodd CIPFA, Swyddfa Archwilio Cymru a CLILC y ffigurau a gyhoeddwyd i raddau helaeth, ond cyflwynwyd rhywfaint o feirniadaeth ynglŷn â defnyddio hen ddata a chyflwyniad yr Asesiad Rheoleiddiol o Effaith.

C.9.3: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi.

3.174 Nododd nifer o ymatebwyr nad oedd unrhyw ddarpariaethau yn y Bil Drafft a oedd yn ymwneud â chynnal a chadw cofnodion, na rheoli cofnodion, er bod darpariaethau ar gyfer hyn yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Nododd Llyfrgell Genedlaethol Cymru y gallai hyn achosi problemau o ran atebolrwydd a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

3.175 Nododd Comisiynydd y Gymraeg, ymhlith eraill, bod angen ystyried a meithrin y Gymraeg drwy gydol unrhyw ad-drefnu, a bod angen i'r gwaith yr oedd Gwynedd a Cheredigion yn ei wneud i wella a datblygu defnydd eang o'r Gymraeg barhau o fewn unrhyw strwythur llywodraeth leol ddiwygiedig.

3.176 Awgrymodd rhai ymatebwyr bod diwygio yn rhoi cyfle i wasanaethau ac ardaloedd cyngor ledled Cymru ailalinio i greu cynllun eglur y bydd y cyhoedd yn ei ddeall yn haws. Byddai hefyd yn galluogi mynd i'r afael â'r 'trethiant dwbl' sy'n cael ei achosi gan swyddogaethau cydamserol ar hyn o bryd.

3.177 Awgrymodd yr CFfDLC y dylai pwerau i wneud diwygiadau canlyniadol i ffiniau wardiau etholiadol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau sy'n codi yn sgil adolygiadau cymunedol hefyd gael eu cynnwys yn y Bil Drafft.

4. Crynodeb o ddigwyddiadau Ymgysylltu

4.1 Yn rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd 32 o ddigwyddiadau ymgysylltu gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Cynlluniwyd y rhain i hysbysu rhanddeiliaid a phrofi cymhwysedd ymarferol y darpariaethau a gynhwysir yn y Bil Drafft.

Sylwadau cyffredinol

4.2 Ar y cyfan, roedd y rhai a fynychodd y digwyddiadau ymgysylltu yn gadarnhaol am y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil Drafft ac roedd y trafodaethau yn adeiladol. Fodd bynnag, roedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith y mynychwyr o'r amserlen ddiwygio.

4.3 Yn ystod un digwyddiad, mynegwyd pryder nad oedd unrhyw beth yn y Bil Drafft i ddiweddarau adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer cadw, rheoli a gofalu am wybodaeth a chofnodion.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

4.4 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol am yr egwyddor bod angen i gynghorau cymuned allu ateb gofynion penodol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Y farn gyffredinol oedd nad oedd y term "cynghorau cymuned â chymhwysedd" yn briodol. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch gallu cynghorau i fodloni'r gofynion, yn enwedig cyfran yr aelodau etholedig. Holwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai unrhyw drefniadau newydd cynghorau cymuned yn effeithio ar y gofynion cymhwysedd (a darpariaethau eraill yn y Bil Drafft).

Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol

4.5 Cefnogwyd pwyllgorau ardaloedd cymunedol gan ardaloedd a oedd eisoes yn gweithio yn y modd hwn, er enghraifft, Sir Ddinbych a Sir Fynwy, ond cafwyd llai o gefnogaeth i hyn o ardaloedd eraill. Mynegwyd pryder penodol ynghylch y berthynas â chynghorau cymuned a thref, o ran darparu gwasanaethau a chynrychiolaeth gymunedol.

4.6 Pwysleisiwyd yr angen i gael mesurau diogelu yn erbyn gweithgarwch blinderus o ran y cynigion a oedd yn ymwneud â cheisiadau gwella.

Swyddogaeth Cynghorau Sir a'u Haelodau

4.7 Cafwyd cefnogaeth i'r dyletswyddau perfformio arfaethedig, ond mynegwyd pryderon y byddai gofyn i bwyllgorau safonau blismona ymddygiad cynghorwyr a'u dyletswyddau perfformio. Mynegwyd cefnogaeth hefyd i'r cynnig yn y papur ymgynghori i ymlacio'r drefn gyfredol o ran dyrannu swyddogaethau a chyfrifoldebau ym mhob cyngor.

4.8 Mynegwyd pryderon ynghylch rhai o'r dyletswyddau arfaethedig a fyddai'n cael eu gosod ar gynghorau yn yr awdurdodau newydd, gan gynnwys cynnal

cymorthfeydd a'r gofyniad arfaethedig y dylai cynghorwyr ymateb i ohebiaeth o fewn 14 diwrnod i'w derbyn.

Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well

4.9 Cefnogwyd y swyddogaethau ehangach ar gyfer pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio yn rhan o fecanweithiau atebolrwydd. Cafwyd hefyd gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid, ond pwysleisiodd y rhai a fynychodd ei bod hi'n bwysig peidio â bod yn rhy ragnodol ynghylch sut y dylid cynnal asesiadau gan gymheiriaid.

Cynghorau Cymuned

4.10 Yn ogystal â myfyrio ar yr adolygiadau o drefniadau cynghorau cymuned, cafwyd trafodaeth eang am y darpariaethau yn Rhan 6 y Bil Drafft o ran dyddiadau etholiadau, hyfforddiant a chynigion yn y ddogfen ymgynghori, megis rheoli perfformiad ac adrodd blynyddol.

4.11 Cafwyd cefnogaeth i wneud hyfforddiant penodol yn orfodol, ac roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud a pha un ai cynghorau sir a ddylai bennu'r hyfforddiant ac ymarferoldeb mynychu.

4.12 Mynegwyd pryderon ynghylch rhesymeg, proses a chanlyniad yr adolygiad arfaethedig o drefniadau cynghorau cymuned. Nodwyd rhai awgrymiadau ar y ffactorau y dylid eu hystyried wrth gynnal yr adolygiadau. Cafwyd galwad i'r Bil gynnwys trefniadau pontio.

5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Er bod cefnogaeth i lawer o'r cynigion diwygio, nid oes unrhyw gonsensws ynghylch y dull y dylid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r diwygio strwythurol. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i ddatblygu opsiynau eraill, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Bydd datganiad ar ddiwygio llywodraeth leol yn cael ei gyflwyno wedyn yn ystod hydref 2016.

6. Rhestr o'r Ymatebwyrⁱ

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolyn canlynol:

Adam Graham

Archifau Morgannwg

Arolygu Cymru

Audrey E Parry

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cangen y Blaid Lafur Llangollen a'r Cylch

Coleg Nyrsio Brenhinol

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cyngor Archifau a Chofnodion (Cymru)

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Cymuned Abergwili

Cyngor Cymuned Abermiwl a Llandysul

Cyngor Cymuned Blaenhonddan

Cyngor Cymuned Borth

Cyngor Cymuned Ceri

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyngor Cymuned Cilybebyll

Cyngor Cymuned Coedffranc

Cyngor Cymuned Croesyceiliog a Llanyrafon

Cyngor Cymuned Cwmllynfell

Cyngor Cymuned Dyserth
Cyngor Cymuned East Williamston
Cyngor Cymuned Eclusham
Cyngor Cymuned Gelligaer
Cyngor Cymuned Genau'r Glyn
Cyngor Cymuned Gorslas
Cyngor Cymuned Gwaunysterfyn
Cyngor Cymuned Gwenfô
Cyngor Cymuned Gwersyllt
Cyngor Cymuned Helygain
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt
Cyngor Cymuned Llandochoau
Cyngor Cymuned Llandyfaelog
Cyngor Cymuned Llandygai
Cyngor Cymuned Llanengan
Cyngor Cymuned Llaneurgain
Cyngor Cymuned Llanfair
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf
Cyngor Cymuned Llangennech
Cyngor Cymuned Llangyfelach
Cyngor Cymuned Llangynidr
Cyngor Cymuned Llanharan
Cyngor Cymuned Llanstadwell
Cyngor Cymuned Llantrisant
Cyngor Cymuned Llys-faen
Cyngor Cymuned Maesycwmmer
Cyngor Cymuned Mochdre a Phenystyrywaid
Cyngor Cymuned Offa
Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog
Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Cyngor Cymuned Sesswick
Cyngor Cymuned Spittal
Cyngor Cymuned Trecelyn
Cyngor Cymuned Tref Alaw

Cyngor Cymuned Trefnant
Cyngor Cymuned Tregolwyn
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
Cyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waen
Cyngor Cymuned Yr Ystog
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Dinas Bangor
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwledig Llanelli
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Tref Aberaeron a Chynghorau Cymuned Ciliau Aeron a Llansantffraid
Cyngor Tref Abergele
Cyngor Tref Aberhonddu
Cyngor Tref Bae Colwyn
Cyngor Tref Biwmares
Cyngor Tref Caerfyrddin
Cyngor Tref Caernarfon
Cyngor Tref Caerwys
Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Llanelli
Cyngor Tref Llanfairfechan
Cyngor Tref Maesteg
Cyngor Trefynwy
Cyngor Tref Neyland

Cyngor Tref Penarth
Cyngor Tref Pencoed
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref Pontarddulais
Cyngor Tref Pontypridd
Cyngor Tref Porthmadog
Cyngor Tref Rhuthun
Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref Treffynnon
Cyngor Tref Y Barri
Cyngor Tref Y Bont-faen a Llanfleiddian
Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn
Cyngor Tref Y Trallwng
Cyngor Tref Y Waun
Cyngor Tref Yr Wyddgrug
Cymdeithas Archifau a Chofnodion (Cymru)
Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol
Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (ALACE)
Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad Cymru
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dr Peter Cloughton
Dyfodol i'r Iaith
Eglwys Ynghyd yng Nghymru
Eric Thomas Wilde
Estyn
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru
Gill Jones
Grŵp Llafur, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Grŵp Llafur Cyngor Dinas Casnewydd

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwyn Jones
Heddlu De Cymru
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Ian Reid
J McKenzie
John Burrows
Julian Mahy
Keith Toy
Llew Thomas
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Mike Garland
Mudiad Meithrin
Nia Thomas
Owen Jordan
Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol
Parciau Cenedlaethol Cymru
Paul Barrett
PWC
Pwyllgor Moeseg a Safonau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg
Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro
Richard Rowlands
Robert Hepworth
Roy Owen
Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol Cymru
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)
Sgowntiaid Cymru
Skwirel Vincent
SOLACE Cymru
UNISON Cymru
Un Llais Cymru

Y Cyng. Alan Speake
Y Cyng. Deborah Wilcox
Y Cyng. Gail Giles
Y Cyng. John W Cole
Y Cyng. Mark Whitcutt
Y Cyng. Neil Moore
Y Cyng. Peter Jones
Y Cyng. Terence Scales
Yr Athro Emeritws J D R Thomas
Ystâd Parc Pont-y-pŵl

ⁱ Gofynnodd 5 ymatebwr i fod yn anhysbys.